Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Older People's Commissioner for Wales

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

## 2025-26

Llais annibynnol ac eiriolydd
ar ran pobl hŷn

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn eiriolydd ar ran pobl hŷn ledled Cymru.

**Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru arwain y ffordd i rymuso pobl hŷn, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, a galluogi pawb i fyw a heneiddio'n dda.**

## Sut mae cysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670
E-bost:gofyn@comisiynyddph.cymru
Twitter: @comisiwnphcymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

## Fformatau hygyrch

Os hoffech chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

**This document is available in English // Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

# Cynnwys

## Adroddiad ar Berfformiad

Yn yr Adroddiad ar Berfformiad, rwyf wedi amlinellu fy mlaenoriaethau strategol a'r prif bethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.


| | |
|---|---|
| Rhagair | 04 |
| Fy rôl fel Comisiynydd | 06 |
| Gwerthoedd | 07 |
| Gweledigaeth a Strategaeth | 08 |
| Cipolwg ar y flwyddyn | 09 |
| 2025-26 mewn rhifau | 12 |
| Mynediad at wybodaeth, gwasanaethau a chymorth | 13 |
| Teimlo'n ddiogel | 16 |
| Cydnabyddiaeth a thriniaeth deg | 19 |
| Llais, dewis a rheolaeth | 22 |
| Darparu cyngor a chymorth i bobl hŷn | 26 |
| Adolygiad o gyllid a pherfformiad ariannol | 35 |
| Adroddiad ar Gynaliadwyedd | 36 |


## Adroddiad Atebolrwydd

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad ac yn arfer llywodraethu corfforaethol da. Mae'n cynnwys y canlynol:


| | |
|---|---|
| Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol | 38 |
| Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 43 |
| Datganiad Llywodraethu | 44 |
| Adroddiad ar Staff a Thaliadau | 53 |
| Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd | 64 |


## Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol, ochr yn ochr â nodiadau esboniadol ac ategol, yn cynnwys y canlynol:


| | |
|---|---|
| Datganiadau ariannol | 70 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 74 |

# Rhagair



2025-26 oedd fy mlwyddyn lawn gyntaf fel Comisiynydd Pobl Hŷn, ac roeddwn yn falch o allu cyflawni ystod o waith i sbarduno newidiadau a gwelliannau i bobl hŷn o Fôn i Fynwy, fel sy'n cael ei amlygu yn yr adroddiad hwn.

Mae lleisiau a phrofiadau pobl hŷn wedi parhau i fod wrth galon fy ngwaith, wedi'u cofnodi ar draws fy ymchwil a'm hadroddiadau, yn ogystal â thrwy ddigwyddiadau ymgysylltu a'r cyswllt â'm Gwasanaeth Cyngor a Chymorth. Mae hyn yn amhrisiadwy i arwain y camau rwy'n eu cymryd ac yn galw amdanynt, i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer ac mae'n fy ngalluogi i ymateb yn effeithiol i faterion sy'n dod i'r amlwg sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Fel y gwelwch isod, roedd fy ngwaith yn canolbwyntio ar bedwar amcan cenedlaethol allweddol, sydd nid yn unig yn sail i'r hyn rwy'n ei gyflawni fel Comisiynydd, ond sydd hefyd yn rhoi fframwaith ar gyfer y camau gweithredu sy'n ofynnol gan wasanaethau a chyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o heriau a rhwystrau sy'n wynebu pobl hŷn a chyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen.

- **Mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth, y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt;**
- **yn teimlo'n ddiogel yn eu perthnasoedd, eu cartrefi a'u cymunedau;**
- **yn cael eu trin yn deg, gyda'u cyfraniad yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi; ac**
- **yn gallu sicrhau bod eu lleisiau'n cael gwrandawiad ac mae ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu bywydau.**

Un agwedd hanfodol ar fy ngwaith yn ystod 2025-26 oedd sicrhau bod llunwyr polisïau a phenderfyniadau yn deall realiti heneiddio o ddydd i ddydd yng Nghymru, yn enwedig i unigolion sy'n wynebu anawsterau a'r rhai sydd mewn sefyllfaoedd agored i niwed.

Roedd hyn yn cynnwys tynnu sylw at faterion allweddol sy'n effeithio ar lesiant ac ar ansawdd bywyd pobl hŷn – gan gynnwys materion hirdymor fel mynediad at ofal cymdeithasol, tlodi ac oedi cyn addasu cartrefi, yn ogystal â heriau sy'n dod i'r amlwg fel oedraniaeth ddigidol a demograffeg sy'n newid – a galw am newid a gwelliannau ystyrlon gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus.

Roedd mynd i'r afael ag oedraniaeth hefyd yn dal yn flaenoriaeth, gan weithio gyda phartneriaid drwy fy mhrosiect 'Sylw' i archwilio'r camau ymarferol y dylai cyrff cyhoeddus fod yn eu cymryd i sicrhau nad oes gwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd eu hoedran. Fe wnes i hefyd weithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yng Nghymru i ddatblygu cwrs hyfforddi ar-lein am ddim i gefnogi gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn ehangach i adnabod ac i herio oedraniaeth mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Ar ben hynny, fe wnes i gynhyrchu adnoddau defnyddiol i rymuso pobl hŷn yn uniongyrchol a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu diogelu, gan gynnwys canllaw gwybodaeth newydd ar Gynllunio Gofal y Dyfodol, sy'n nodi'r camau y gallai fod arnom eisiau eu cymryd i sicrhau bod ein hanghenion a'n dymuniadau yn y dyfodol yn cael eu cydnabod, a fersiwn wedi'i diweddaru o'm Canllaw Hwylus i Atwrneiaeth Arhosol, sy'n dal yn un o'm cyhoeddiadau mwyaf poblogaidd.

Drwy fy ngwaith rwyf hefyd wedi hyrwyddo agweddau cadarnhaol mynd yn hŷn a chyfraniad enfawr pobl hŷn – er mwyn herio stereoteipiau a thybiaethau. Mae hyn wedi cynnwys tynnu sylw at yr amrywiaeth eang o arferion da, gweithgareddau a chymorth sydd i gyd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o wneud ein cymunedau'n oed-gyfeillgar. Ochr yn ochr â hyn, fe wnes i barhau i weithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau, gweithgareddau a chyfleoedd oed-gyfeillgar ledled Cymru.

Wrth symud ymlaen, mae llawer o gyfleoedd i sicrhau newid a gwelliannau ystyrlon i bobl hŷn, gan adeiladu ar sylfeini cadarn deddfwriaeth a pholisïau sy'n arwain y ffordd mewn sawl ystyr, a manteisio ar yr egni a'r momentwm a gynhyrchir gan Lywodraeth newydd Cymru.

Er hynny, mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy fy ymchwil, fy ngwaith ymgysylltu a'm gwaith o ddydd i ddydd hefyd yn dangos bod gormod o bobl hŷn yn dal i weld bwlch rhwng yr uchelgais a'r ymarfer. O ganlyniad, nid yw profiadau pobl yn cyfateb i'r hyn y dylent allu ei ddisgwyl, er bod dealltwriaeth dda o lawer o'r heriau sy'n wynebu pobl hŷn, a bod y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw yn glir.

Dyna pam y byddaf, fel Comisiynydd, yn dal ati i fod yn llais cryf ac annibynnol ac yn hyrwyddwr dros bobl hŷn, gan sbarduno newidiadau a gwelliannau drwy fy rhaglen waith a dal cyrff cyhoeddus i gyfrif i sicrhau bod ymrwymiadau'n cael eu trosi i fod yn gamau gweithredu a bod pobl hŷn ledled Cymru yn gallu byw a heneiddio'n dda, gyda'r urddas, yr hawliau a'r cyfleoedd maen nhw'n eu haeddu.

**Rhian Bowen-Davies**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

---

***"Fy ngweledigaeth i Gymru: Gwlad sy'n arwain y ffordd i rymuso pobl hŷn, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac yn galluogi pawb i fyw a heneiddio'n dda."***

---

# Fy rôl fel Comisiynydd

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â’r Cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru, a hynny yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 10 (1) (b).

Rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw gwarchod a hybu hawliau pobl 60 oed a hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau.

Rwy’n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy fy nhîm Cyngor a Chymorth, ac rwy’n gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw’n ei ddweud.

## Fy nghylch gwaith fel Comisiynydd

Fel y nodwyd yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a sefydlodd y swydd, cylch gwaith y Comisiynydd yw:

- Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a’r angen i ddiogelu’r buddiannau hynny;
- Hyrwyddo’r cyfleoedd a ddarperir i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu rhagfarn yn eu herbyn;
- Hybu’r arferion gorau o ran y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru; a
- Parhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy’n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Mae’r swyddogaethau statudol hyn yn cael eu cyflawni ar draws hyd a lled fy ngwaith, fel y nodir isod.

# Ymddygiadau a Gwerthoedd Mewnol y Sefydliad

Mae gwerthoedd ein sefydliad yn disgrifio'r diwylliant rydym am ei feithrin a'r newid rydym am ei arwain. Maen nhw wedi cael eu siapio gan bwy ydym ni a'r hyn rydym ni'n credu ynddo.

Maent yn darparu sylfaen sy'n llywio sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd a chydag eraill ar ran pobl hŷn, gan ein cefnogi i weithredu gydag uniondeb, trugaredd a phwrpas.

## Ein gwerthoedd:

- **Eofn ac uchelgeisiol**
- **Yn barod i addasu ac ymateb**
- **Teg a chynhwysol**
- **Parchus ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn**
- **Gonest ac Atebol**



# Gweledigaeth a Strategaeth

Fy ngweledigaeth yw Cymru sy'n arwain y ffordd i rymuso pobl hŷn, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac yn galluogi pawb i fyw a heneiddio'n dda.

Drwy ymgysylltu ac ymgynghori â phobl hŷn ledled Cymru yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd, a chlywed yn uniongyrchol am amrywiaeth o faterion a phryderon, dewisais bedwar canlyniad cenedlaethol allweddol y mae angen eu cyflawni i wireddu'r weledigaeth hon, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl hŷn:

- Yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt;
- Yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, yn eu cymunedau ac yn eu perthnasoedd;
- Yn cael eu trin yn deg, gyda'u cyfraniad yn cael ei gydnabod; ac
- Yn gallu sicrhau bod eu lleisiau'n cael gwrandawiad a bod ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu bywydau.

Mae'r canlyniadau hyn yn darparu fframwaith ar gyfer y camau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus a gwasanaethau yng Nghymru eu cymryd i ymateb i'r ystod o heriau a rhwystrau sy'n wynebu pobl hŷn ac i gyflawni'r gwelliannau y mae pobl hŷn eu heisiau a'u hangen.

Maent hefyd yn sail i'm Strategaeth 2025-28, sy'n cyflwyno fy amcanion strategol dros y tair blynedd nesaf:

- Sbarduno newid i wneud Cymru yn wlad lle gall pobl fyw a heneiddio'n dda
- Grymuso pobl hŷn
- Newid y naratif am bobl hŷn a heneiddio
- Drwy fy rhaglenni gwaith blynyddol, rwy'n bwrw ymlaen amrywiol gamau gweithredu yn erbyn yr amcanion hyn i sicrhau newid cadarnhaol i bobl hŷn ledled Cymru.

# Cipolwg ar y flwyddyn 2025-26

## Ebrill 2025

Croesawu Strategaeth Iechyd Meddwl newydd i Gymru ond yn galw am fwy o ffocws ar fynd i'r afael â gwahaniaethu o fewn gwasanaethau iechyd meddwl oherwydd oedran neu nodweddion gwarchodedig eraill.



Adolygu'r ymagwedd at ymgysylltu â phobl hŷn ac yn datblygu strategaeth wedi'i diweddaru i estyn allan hyd yn oed yn ehangach ledled Cymru, gan adlewyrchu ymrwymiad cryf i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn parhau i lunio a llywio blaenoriaethau a gweithgareddau.

## Mai

Lansio strategaeth tair blynedd – *Cymru sy'n arwain y ffordd i bobl hŷn* – sy'n nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau newid cadarnhaol i bobl hŷn.




Darparu tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor y Senedd sy'n craffu ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), gan dynnu sylw at ffyrdd y gellid gwella'r ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl hŷn yn aml yn eu hwynebu wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

## Mehefin

Cyhoeddi adroddiad sy'n tynnu sylw at brofiadau pobl hŷn o dyfu'n hŷn heb blant, sy'n canfod bod ystod o bolisïau, deddfwriaethau ac ymarfer yn 'annigonol i raddau helaeth' wrth ymateb i ddemograffeg sy'n newid yn gyflym.



Croesawu'r cyhoeddiad y byddai Taliadau Tanwydd y Gaeaf yn cael eu hadfer i'r mwyafrif o bobl hŷn ar ôl galw ar Lywodraeth y DU i wrthdroi ei phenderfyniad yn 2024.

## Gorffennaf

Traddodi prif anerchiad yn nigwyddiad cenedlaethol Cymorth Cynllunio Cymru, gan alw am ymgysylltiad mwy ystyrlon i sicrhau bod y gwaith o gynllunio a dylunio ein cymunedau yn ystyriol o oedran ac yn cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda.



Ymgysylltu â phobl hŷn a'r cyhoedd ehangach mewn digwyddiadau haf ar raddfa eang, gan gynnwys Pride Cymru a'r Sioe Frenhinol, i ddysgu mwy am y materion a'r rhwystrau penodol y mae pobl hŷn yn eu hwynebu sy'n gysylltiedig â'u hunaniaeth, amgylchiadau personol neu ble maen nhw'n byw.

## Awst




Gwrthwynebu cynigion sy’n gwahaniaethu ar sail oed ar gyfer profion llygaid gorfodol i yrwyr 70+ oed a galw am bolisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth nad yw'n atgyfnerthu rhagdybiaethau a stereoteipiau am bobl hŷn.

Cyfarfod pobl hŷn yn yr Eisteddfod Genedlaethol i ddysgu mwy am eu profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd, a'r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu wrth geisio gwneud hynny.

## Medi




Cyhoeddi *Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Nesaf Cymru*, sy'n galw am nifer o gamau mewn meysydd allweddol i sicrhau nad yw pobl hŷn yn cael eu heithrio o gymdeithas a’u bod yn cael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau iach, annibynnol.

Dwyn ynghyd dros 150 o weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer digwyddiad gweminar i archwilio'r ffyrdd y gellir gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy cynhwysol i unigolion sy'n tyfu'n hŷn heb blant.

## Hydref



Cyhoeddi *Tyfu’n Hŷn yng Nghymru* sy'n archwilio'r data a'r ymchwil sydd ar gael, gan olrhain tueddiadau dros amser, i roi cipolwg ar brofiadau pobl o dyfu'n hŷn a'r anghydraddoldebau y gallant eu hwynebu ar draws meysydd allweddol o'u bywydau.

Mae’n rhannu canfyddiadau’r ymchwil sy’n dangos bod pobl hŷn mewn risg sylweddol o fod yn destun gwahaniaethu ar sail oed ac mae’n galw am weithredu i atal pobl hŷn rhag cael eu heithrio o ganlyniad i’r broblem gynyddol hon.

## Tachwedd



Cyhoeddi adroddiad sy'n nodi graddfa ac effaith tlodi ymhlith pobl hŷn yng Nghymru ac yn galw am nifer o gamau i sicrhau bod pobl hŷn sy'n cael trafferth ariannol yn cael cymorth gwell.

Gwahodd pobl hŷn ledled Cymru i rannu eu profiadau o ofal cymdeithasol i archwilio a yw ansawdd y cymorth gofal cymdeithasol y mae pobl yn ei dderbyn yng Nghymru yn adlewyrchu'r safonau a amlinellir mewn polisi a deddfwriaeth.

## Rhagfyr



Dod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i archwilio sut y gellid cefnogi gwelliannau mewn iechyd y geg a deintyddiaeth pobl hŷn gyda modelau cymunedol newydd o atal, trin a gofal.

Cyhoeddi adroddiad sy'n tynnu sylw at sut mae'r defnydd cynyddol o systemau talu seiliedig ar apiau mewn meysydd parcio yn creu rhwystrau sy'n achosi i lawer o bobl hŷn deimlo'n rhwystredig ac wedi'u heithrio.

## Ionawr



Lansio *Cynllunio Gofal y Dyfodol,* canllaw gwybodaeth, sy'n darparu ystod eang o wybodaeth ddefnyddiol am y ffyrdd y gallwn ystyried, trafod a chofnodi ein dymuniadau ar gyfer y dyfodol.

Cyhoeddi'r cyntaf mewn cyfres o gyfraniadau gan arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigwyr eraill sy'n gweithio ar draws sectorau allweddol yng Nghymru i daflu goleuni ar realiti gwahaniaethu ar sail oedran yng nghyd-destun Cymru a phenderfynu ar y ffyrdd mwyaf effeithiol y gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu trin yn deg.

## Chwefror




Rhybuddio bod pobl hŷn mewn mwy o berygl o sgamiau sy'n ymwneud â'r Taliad Tanwydd Gaeaf a rhannu gwybodaeth ddefnyddiol am yr hyn y gall pobl ei wneud i amddiffyn eu hunain.

Archwilio'r dystiolaeth ddiweddaraf sy'n ymwneud â phrofiadau pobl hŷn a materion sy'n dod i'r amlwg, i bennu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod a datblygu rhaglen waith gadarn, effeithiol a fydd yn fodd i sicrhau newid cadarnhaol a chynnydd pellach.

## Mawrth



Cyhoeddi adroddiad sy'n tynnu sylw at y ffaith bod pobl hŷn mewn sawl rhan o Gymru yn aros dros flwyddyn i addasiadau hanfodol gael eu gwneud i'w cartrefi, rhywbeth sy'n peryglu eu hiechyd, eu lles a'u hannibyniaeth.

Cynnal digwyddiad fforwm drafod i archwilio'r camau sydd eu hangen i wella ymatebion i brofiadau pobl hŷn o drais a cham-drin rhywiol, gan ddod â chynrychiolwyr allweddol sy'n gweithio ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector at ei gilydd.

## 2025-26 mewn rhifau

**707**

Nifer y bobl hŷn a gefnogir gan Dîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd

**15,186**

Nifer yr unigolion a ymwelodd â Gwefan y Comisiynydd

**43,410**

Nifer y tudalennau yr edrychwyd arnynt ar wefan y Comisiynydd

**110,441**

Nifer yr argraffiadau X (nifer y gwaith y gwelwyd postiadau gan y Comisiynydd)

**96,144**

Nifer y bobl a gyrhaeddwyd gyda phostiadau o dudalen Facebook y Comisiynydd

**172**

Nifer yr eitemau newyddion sy'n ymwneud â gwaith y Comisiynydd

**243,866,373**

Eitemau newyddion 'Cyfleoedd i weld' yn ymwneud â gwaith y Comisiynydd

# MYNEDIAD AT WYBODAETH, GWASANAETHAU A CHYMORTH

**Wrth i ni heneiddio, rydym yn aml yn dod yn fwy dibynnol ar wasanaethau a chymorth i'n helpu i fyw a heneiddio'n dda; gallai'r rhain gynnwys gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, trafnidiaeth neu wasanaethau eraill yn y gymuned.**

Ond mae pobl hŷn yn aml yn cyfeirio at bethau sy'n eu rhwystro rhag cael gafael ar y mathau hyn o wasanaethau, neu at bethau y maent yn cael problemau wrth eu defnyddio, yn ogystal ag anawsterau'n dod o hyd i wybodaeth ddibynadwy a chyfredol - yn enwedig os nad ydyn nhw ar-lein.

Dyna pam roedd rhan fawr o'm gwaith yn ystod 2025-26 yn canolbwyntio ar gasglu tystiolaeth am brofiadau bywyd pobl hŷn i sicrhau bod y bobl sy'n gwneud y polisïau a'r penderfyniadau yn eu cydnabod, yn eu deall ac yn ymateb iddynt.

## Profiadau pobl hŷn o wasanaethau gofal cymdeithasol

Fe wnes i gysylltu â phobl hŷn sy’n cael gwahanol fathau o ofal cymdeithasol ledled Cymru i weld beth sy’n gweithio’n dda, yn ogystal â lle gellir gwell.

Roeddwn i’n awyddus iawn i weld a yw ansawdd y cymorth gofal cymdeithasol y mae pobl yn ei gael yn adlewyrchu'r safonau a nodir mewn polisi a deddfwriaeth. Ar sail y problemau a’r pryderon y mae pobl hŷn yn eu codi, mae’n ymddangos nad yw hynny bob amser yn wir.

Bûm yn gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i ddosbarthu copïau o’m holiadur i bobl hŷn a’u teuluoedd (yn fersiynau papur a digidol), a llwyddodd dros 260 o unigolion i ymateb. Ochr yn ochr â’r arolwg, cynhaliwyd cyfweliadau ffôn manwl gyda 27 o gyfranogwyr a roddodd inni’r cyfle i dreiddio’n fanylach i’w hymatebion i’r holiadur.

Byddaf yn cyhoeddi canfyddiadau fy ymchwil ym mis Gorffennaf 2026, gan ddisgrifio’r camau gweithredu sydd eu hangen mewn meysydd allweddol a sut gellid blaenoriaethu hyn yn effeithiol.

## Barn pobl hŷn ar fynediad i gyfleusterau parcio ceir yng Nghymru

Bûm yn edrych ar ba effaith y mae defnyddio systemau talu digidol ac apiau talu fwyfwy mewn meysydd parcio yn ei chael, yn dilyn y pryderon y mae llawer o bobl hŷn wedi’u codi bod hyn yn gwneud iddynt deimlo’n rhwystredig a’u bod yn cael eu cau allan.

Roedd fy adroddiad ‘Lle i Bawb?’ yn seiliedig ar y profiadau yr oedd pobl hŷn ar draws Cymru wedi’u rhannu, yn ogystal ag ar y data y gofynnwyd amdano oddi wrth awdurdodau lleol, i roi cipolwg inni ar yr opsiynau a’r systemau talu sydd ar gael yn eu meysydd parcio.

Canfu’r adroddiad fod y rhan fwyaf o feysydd parcio sydd dan ofal awdurdodau lleol yn dal i gynnig amrywiaeth o opsiynau talu, gan gynnwys arian parod mewn sawl lle. Yn ôl llawer o bobl hŷn, nid yw hyn yn wir erbyn hyn, a dywedant fod y sefyllfa yn effeithio ar eu hannibyniaeth, eu llesiant a’u gallu i gymryd rhan yn y gymuned.

Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rwystrau ychwanegol y mae pobl hŷn yn eu hwynebu - gan gynnwys cymhlethdod apiau, pryderon am sgamiau a phreifatrwydd, a signalau ffonau symudol annibynadwy, sy’n aml yn golygu bod pobl yn dibynnu ar eraill neu ddim yn teimlo’n hyderus i barcio’n annibynnol mwyach.

Ar sail fy nghanfyddiadau, nodais nifer o gamau ymarferol er mwyn i awdurdodau lleol ymateb i’r materion y tynnwyd sylw atynt yn fy adroddiad, gan gynnwys cadw amrywiaeth o opsiynau talu, a gwella’u ffyrdd o gyfathrebu er mwyn hyrwyddo’r ffaith bod modd talu mewn ffyrdd ar wahân i ddulliau digidol.

Roedd yr adroddiad hefyd yn ailddatgan pa mor bwysig yw hi bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu ac yn ymgynghori’n ystyrlon â phobl hŷn os ydynt yn ystyried gwneud newidiadau i wasanaethau, yn unol â’r canllawiau ffurfiol ar gyfer awdurdodau lleol a gyhoeddais yn 2024-25.

## Mynd yn hŷn heb blant

Edrychais ar brofiadau pobl sy’n mynd yn hŷn a hwythau heb blant, grŵp y rhagwelir y bydd yn tyfu’n sylweddol i'r dyfodol, gan ddwyn ynghyd amrywiaeth eang o dystiolaeth ac ymchwil sy’n canolbwyntio ar wahanol agweddau ar fywydau bob dydd pobl.

Amlygodd fy ‘Adroddiad pobl hŷn sydd heb blant’, er bod i heneiddio heb blant lawer o fanteision - gan gynnwys cysylltiadau cymdeithasol cryf a sefydlogrwydd ariannol - fe all pobl sydd heb blant hefyd deimlo’n anweledig, eu bod ar y cyrion a’u bod yn cael eu hanwybyddu yn ystod trafodaethau am heneiddio mewn cymdeithas sy’n canolbwyntio ar deuluoedd.

Canfu’r adroddiad hefyd fod llawer o bolisïau a gwasanaethau yn tybio bod rhyw fath o gymorth i’w gael gan deulu, ac mae hyn yn gallu rhwystro pobl hŷn rhag defnyddio gwasanaethau a chymorth fel iechyd a gofal cymdeithasol, trafnidiaeth, gweithgareddau cymdeithasol, addysg a gweithgareddau diwylliannol.

Cyfeiriai’r adroddiad at yr angen i gymryd amrywiaeth o gamau gweithredu i roi sylw i’r materion a welwyd a chreu gwasanaethau a chymunedau sy’n gynhwysol ac yn addas ar gyfer y dyfodol - gan symud oddi wrth bolisi ac ymarfer sy’n seiliedig ar dybiaethau hen ffasiwn a chydnabod anghenion pob person hŷn.

Er mwyn archwilio’r canfyddiadau’n fanylach a sut gall gwasanaethau cyhoeddus fod yn fwy cynhwysol i unigolion sy’n heneiddio heb blant, cynhaliodd y Comisiynydd webinar, a oedd yn cynnwys cyfraniadau gan bobl hŷn a fu’n rhannu eu profiadau bywyd, yn ogystal ag arbenigwyr eraill. Daeth dros 150 o weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy’n gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru i’r digwyddiad, a chafodd adborth cadarnhaol iawn am greu lle i amlygu a phwyso a mesur y mater hwn sy’n dod yn fwyfwy cyffredin.

# TEIMLO'N DDIOGEL

**Mae teimlo'n ddiogel - boed hynny yn ein cartrefi, ein cymunedau neu yn ein perthnasoedd - yn hollbwysig i'n hiechyd a'n lles. Ond mae gan lawer o bobl hŷn ledled Cymru bryderon am eu diogelwch, yn enwedig mewn rhai sefyllfaoedd, ac mae hynny'n effeithio ar eu hyder a'u hannibyniaeth.**

Felly, roedd fy ngwaith yn ystod 2025-26 o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio'n gadarn ar ddeall yn well y risgiau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle gallent fod yn arbennig o agored i niwed, ac ar weithio gyda phartneriaid i nodi a bwrw ymlaen â'r camau sydd eu hangen i atgyfnerthu'r cymorth, gwella ymatebion a sicrhau bod pobl hŷn yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn.

## Amser aros ar gyfer addasiadau i'r cartref

Fe wnes i waith ymchwil i weld pam bod pobl hŷn yn aml yn gorfod aros yn hir i addasiadau hanfodol gael eu gwneud yn eu cartrefi, gan gynyddu'r risg o gwympo, anafiadau a chyfnodau yn yr ysbyty neu mewn cartrefi gofal y gellid bod wedi'u hosgoi.

Roedd y canfyddiadau'n seiliedig ar ddata y gofynnwyd amdano oddi wrth awdurdodau lleol ar yr amser aros cyfartalog am waith a wneir drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, sy'n cynnig cyllid i wneud addasiadau i gartrefi i'r rheini sy'n gymwys - yn aml ar gyfer gwaith mwy. Gofynnais hefyd am wybodaeth ychwanegol a fyddai'n rhoi cipolwg ar ymhle yn y broses yr oedd oedi'n fwyaf tebygol o ddigwydd.

Dangosodd fy nadansoddiad amser aros cyfartalog am addasiadau drwy'r grant hwn o 370 diwrnod (i fyny o 207 diwrnod pan gyhoeddwyd y data tebyg ddiwethaf yn 2019), gydag amseroedd aros llawer hwy mewn rhai ardaloedd, yn aml oherwydd oedi mewn asesiadau neu ddiffyg contractwyr lleol.

Canfu'r adroddiad hefyd fod y systemau a'r prosesau sy'n ymwneud ag addasiadau i gartrefi yn gallu bod yn gymhleth, yn anghyson ac yn anodd eu defnyddio, gan rwystro pobl rhag cael gafael arnynt mewn pryd. At hynny, mae'r galw cynyddol a'r costau cynyddol yn rhoi pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at yr angen am amrywiaeth o gamau gweithredu i roi sylw i'r heriau hyn a sicrhau bod gwasanaethau addasu cartrefi yn effeithiol, yn deg ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod data o ansawdd gwell ar gael yn haws, diweddaru canllawiau a safonau gwasanaeth hen ffasiwn, a chryfhau'r ymgysylltiad â grwpiau a allai wynebu rhwystrau rhag cael gafael ar gymorth.

Rwy'n gweithio gyda Llywodraeth newydd Cymru, yn ogystal â gydag awdurdodau lleol ledled Cymru, i sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd a bod gwelliannau'n cael eu gwneud.

## Gwella ymatebion gwasanaethau i brofiadau pobl hŷn o drais a cham-drin rhywiol

Fe wnes i ddwyn ynghyd arbenigwyr a chynrychiolwyr o sefydliadau allweddol sydd â phrofiad o weithio gyda phobl hŷn y mae cam-drin yn effeithio arnynt i archwilio sut gellid gwella'r ymatebion gan wasanaethau pan geir amheuaeth neu adroddiadau o drais neu gam-drin rhywiol.

Roedd y digwyddiad ford gron yn gyfle i archwilio rhai o'r heriau allweddol sy'n gysylltiedig â'r mater hwn sy'n aml yn guddiedig, fel cymhlethdod achosion, prinder data a'r amharodrwydd sydd gan lawer o unigolion, yn ddealladwy, i ddatgelu cam-drin o'r math hwn.

Bu'r cyfranogwyr hefyd wedi edrych ar y problemau a'r rhwystrau cyffredin y gallai pobl hŷn eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar wasanaethau a chymorth, a sut gall tybiaethau sy'n seiliedig ar oedran ddylanwadu ar sut mae ymarferwyr yn ymateb ac yn ymdrin â sefyllfa lle gallai trais neu gam-drin rhywiol fod wedi digwydd.

Yn ystod y digwyddiad, cyfeiriodd y cyfranogwyr at yr angen am amrywiaeth o gamau gweithredu, a oedd yn canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol:

- Cynnwys profiadau bywyd wrth ymchwilio, cynllunio a darparu gwasanaethau
- Gwella'r broses o gasglu data
- Canoli a chronni data
- Codi ymwybyddiaeth a chreu newid mewn diwylliant
- Gwella gwasanaethau a hyfforddiant

Gwnaeth y cyfranogwyr nifer o ymrwymiadau i gefnogi cynnydd yn y meysydd hyn, gan gynnwys casglu data am ba mor gyffredin ydy trais rhywiol neu gam-drin rhywiol mewn rhai sefydliadau a lleoliadau, datblygu hyfforddiant ac adnoddau ymarferwyr, ac integreiddio cwestiynau am ymwybyddiaeth o drais rhywiol neu gam-drin rhywiol yn yr ymchwil sy'n bodoli eisoes.

Rwyf hefyd yn chwarae fy rhan drwy gydweithio ag aelodau o'm Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin, Llywodraeth Cymru a sefydliadau allweddol eraill i gryfhau dealltwriaeth, dylanwadu ar bolisi, canfod yr arferion da a chefnogi ymatebion gwell pan fydd trais a cham-drin rhywiol yn effeithio ar bobl hŷn.

## Gwneud Cymru'n Genedl o Gymunedau Oed-gyfeillgar

Daliais ati i weithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i gefnogi amrywiaeth o gamau gweithredu i wneud cymunedau'n fwy oed-gyfeillgar, gan ddarparu 28 o sesiynau cymorth i awdurdodau lleol a phartneriaethau heneiddio'n dda.

Roedd y sesiynau hyn yn cynnig cyngor ymarferol ar greu strategaethau a chynlluniau lleol, yn ogystal â cheisiadau i ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-Gyfeillgar, sy'n rhoi i'w aelodau gyfle i ddysgu a gweld arferion da o bob cwr o'r byd, yn ogystal â chyfleoedd i arddangos gweithgareddau sy'n cael eu darparu yng Nghymru ar lwyfan rhyngwladol.

Yn ystod 2025-26, ymunodd tri awdurdod lleol arall yng Nghymru â'r Rhwydwaith, gan godi cyfanswm yr aelodau o Gymru i 12 (ar 31/03/26). Mae hyn yn golygu bod dwy ran o dair o boblogaeth Cymru sydd dros 60 oed bellach yn byw mewn ardal sy'n cael ei chydnabod am ei chynlluniau oed-gyfeillgar.

Gwnaed rhagor o waith hefyd i dyfu a chryfhau'r Gymuned Ymarfer Oed-Gyfeillgar, sy'n rhoi cyfleoedd i'r aelodau feithrin perthnasoedd cydweithredol a rhannu gwybodaeth i gefnogi datblygiadau arloesol ac arferion da.

# CYDNABYDDIAETH A THRINIAETH DEG

**Mae cael eich trin yn deg a gyda pharch yn hanfodol i fyw a heneiddio'n dda. Ac eto, mae'r dystiolaeth yn dal i ddangos bod oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran yn gyffredin o hyd, ac yn siapio agweddau, yn dylanwadu ar benderfyniadau ac yn creu rhwystrau ar draws sawl agwedd ar fywyd bob dydd - o gael gafael ar wasanaethau i gyfleoedd mewn cyflogaeth a chymryd rhan yn ehangach mewn cymdeithas.**

Mae profiadau pobl hŷn yn tynnu sylw at sut gall tybiaethau negyddol am heneiddio arwain at allgáu, cyfyngu ar gyfleoedd a thanseilio hyder ac ymdeimlad pobl o werth, er gwaethaf y cyfraniad sylweddol y mae pobl hŷn yn ei wneud i'w cymunedau ac i gymdeithas yn gyffredinol.

Dyna pam roedd rhan allweddol o'm gwaith yn ystod 2025-26 yn canolbwyntio ar herio oedraniaeth, gwella'r gydnabyddiaeth o brofiadau pobl hŷn a chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth i roi hwb i weithredu i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys a'u trin yn deg.

## Modiwl dysgu gweithredu yn erbyn oedraniaeth

Bûm yn gweithio ar y cyd â'r Brifysgol Agored yng Nghymru i greu modiwl dysgu ar-lein a fwriedir i rymuso pobl ledled Cymru i adnabod a herio oedraniaeth sy'n dal i gael ei hystyried yn dderbyniol er gwaethaf y niwed sylweddol y mae'n ei achosi.

Mae'r cwrs rhyngweithiol yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth a phrofiadau uniongyrchol pobl hŷn i helpu cyfranogwyr i ddeall maint ac effaith oedraniaeth ar unigolion a chymdeithas yn ehangach.

Mae'r cwrs yn ymdrin â nifer o feysydd allweddol lle mae oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran yn gyffredin, gan gynnwys mynediad at wasanaethau, cyflogaeth a recriwtio, ac ym myd y cyfryngau a hysbysebu.

Yn ogystal â chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth, mae'r cwrs hefyd yn cynnig gwybodaeth ymarferol am sut i weithredu yn erbyn oedraniaeth, ynghyd â dolenni at sefydliadau ac adnoddau defnyddiol eraill sy'n gallu rhoi gwybodaeth a chymorth.

Mae'r cwrs wedi'i anelu'n bennaf at staff y sector cyhoeddus yng Nghymru, ond mae ar gael am ddim i unrhyw un sydd eisiau dysgu mwy am y rhan maen nhw'n gallu ei chwarae i fynd i'r afael ag oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, a pham mae hyn mor bwysig.

Bydd y cwrs yn cael ei rannu â sefydliadau a chyrff cyhoeddus allweddol ledled Cymru pan gaiff ei lansio ym mis Mehefin er mwyn iddynt ei gyflwyno i'w timau, ac rwyf hefyd yn edrych ar gyfleoedd i'r cwrs gael ei gynnwys mewn rhaglenni hyfforddi mewnol safonol.

## Heneiddio yng Nghymru: Cipolwg ar brofiadau pobl hŷn

Bûm yn edrych ar y data a'r gwaith ymchwil sydd ar gael, gan olrhain tueddiadau dros amser lle bo hynny'n bosibl, er mwyn helpu i sicrhau mwy o gydnabyddiaeth i brofiadau pobl o heneiddio ar draws meysydd allweddol o'u bywydau.

Mae'r data a amlygwyd yn fy adroddiad 'Tyfu'n hŷn yng Nghymru' yn rhoi cipolwg pwysig ar y mathau o broblemau a rhwystrau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu ar hyn o bryd, yn ogystal ag ar yr anghydraddoldebau a welir ymysg gwahanol grwpiau ac ardaloedd gwahanol, sy'n aml yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd eu hangen ar bobl i fyw a heneiddio'n dda.

Canfu'r adroddiad, er bod mynd yn hŷn yn gyfnod o foddhad i lawer o bobl hŷn ac yn eu grymuso, mae eraill mewn llawer mwy o berygl o gael eu gadael ar ôl neu eu heithrio.

Rhannais yr adroddiad â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus allweddol eraill, gan dynnu sylw at y camau y mae angen eu cymryd i ymateb i'r materion a nodwyd, a byddaf yn dal i ddefnyddio'r dystiolaeth bwysig a gasglwyd i gefnogi fy ngwaith a'm galwadau am newid.

## Sylw i Oedraniaeth:

Gweithiais ar y cyd ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ac arbenigwyr eraill i greu cyfres o erthyglau cyhoeddedig i dynnu sylw at realiti oedraniaeth mewn cyd-destun Cymreig, cynyddu ymwybyddiaeth ac annog gweithredu.

Mae'r cyfraniadau'n rhoi darlun byw o rai o'r heriau a'r rhwystrau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu yn eu bywydau bob dydd, gan ddefnyddio profiadau bywyd pobl a'r ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf.

Cynhwysai'r gyfres nifer o feysydd allweddol lle gallai pobl brofi gwahaniaethu neu gael eu hallgáu oherwydd eu hoedran - gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, trafnidiaeth a’r amgylchedd adeiledig - gan dynnu sylw at nifer o bryderon a themâu cyffredin sy’n rhoi cipolwg defnyddiol ar sut gellid blaenoriaethu’r camau gweithredu sy’n ofynnol yn effeithiol.

Bydd y dystiolaeth a gasglwyd drwy Sylw i Oedraniaeth yn cryfhau fy ngalwadau am weithredu a’m hargymhellion i gyrff cyhoeddus, yn ogystal ag yn cefnogi fy ngalwadau ehangach am sgwrs genedlaethol am oedraniaeth a’i heffaith yma yng Nghymru, gyda lleisiau pobl hŷn yn cael lle canolog yn hyn oll.

Byddai’r cam gweithredu hwn yn rhoi llwyfan cadarn ar gyfer codi proffil y materion hyn, gan dynnu sylw at anghyfiawnder oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, ac – yn y pen draw – newid agweddau ac ymddygiad.

## Oedraniaeth ddigidol

Edrychais ar effaith oedraniaeth ddigidol ar bobl hŷn, gan gyhoeddi adroddiad yn rhybuddio bod y broblem gynyddol hon yn eu rhoi mewn cryn berygl o gael eu hallgáu yn gymdeithasol mewn byd sy’n gynyddol ddigidol.

Tynnai’r adroddiad sylw at faint o bobl hŷn sy’n wynebu mwy o rwystrau ar draws sawl agwedd ar eu bywydau o ganlyniad i stereoteipio, anfantais neu ragfarn at bobl ar sail oedran mewn cyd-destunau digidol.

Ymysg y prif faterion a nodwyd yr oedd hygyrchedd a defnyddioldeb platfformau digidol, sy’n aml yn tybio bod pawb yn ddigidol-lythrennog neu sydd wedi’u creu gyda defnyddwyr iau mewn golwg; gwahaniaethu wrth recriwtio a chyflogi; a rhagfarn mewn systemau deallusrwydd artiffisial, sy’n cael eu defnyddio fwyfwy mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â’r sector technoleg a dylunwyr gwasanaethau digidol, ac yn disgrifio’r camau sydd eu hangen i roi sylw i’r materion a welwyd.

Mae hyn yn cynnwys mwy o weithio mewn partneriaeth â phobl hŷn i gyd-greu gwasanaethau a systemau digidol, gan ei gwneud yn ofynnol i bob cynnyrch a gwasanaeth digidol sy'n cael ei gomisiynu ar gyfer y cyhoedd gyrraedd safonau hygyrchedd a defnyddioldeb sy’n gynhwysol i bob oedran, a sicrhau bod polisïau digidol yn cydnabod ac yn rhoi ystyriaeth i brofiadau pobl hŷn yn eu holl amrywiaeth.

# LLAIS, DEWIS A RHEOLAETH

**Wrth i ni fynd yn hŷn, rydym yn dal eisiau cael rheolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio arnom ni, teimlo bod ein safbwyntiau'n cael gwrandawiad ac ymateb, a'n bod yn gallu gwneud dewisiadau ystyrlon am ein bywydau bob dydd.**

Fodd bynnag, i lawer o bobl hŷn ledled Cymru, nid dyma'r realiti. Mae 'Dewis' yn aml yn golygu cael cynnig cyfleoedd i ffitio i mewn i systemau cymorth sydd eisoes yn bodoli, ac mae llawer o bobl hŷn yn cael eu gadael heb lais, yn enwedig pan fyddant yn cael eu hunain mewn sefyllfa fregus, sy'n golygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar eu rhan, yn hytrach na gyda nhw.

Felly, roedd grymuso pobl hŷn i gynllunio a gwneud penderfyniadau am eu dyfodol yn un o'r elfennau pwysig yr oedd fy ngwaith yn canolbwyntio arno ystod 2025-26, ochr yn ochr â thynnu sylw at y problemau a'r rhwystrau a all gyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael wrth i ni heneiddio.

## Profiadau pobl hŷn o fyw mewn tlodi

Defnyddiais leisiau pobl hŷn, a gasglwyd drwy amrywiaeth o waith ymchwil ac ymgysylltu, i dynnu sylw at realiti tlodi yn ddiweddarach mewn bywyd a'r effaith aruthrol y mae hyn yn ei chael ar iechyd a lles pobl.

Gan ddefnyddio'r data a'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael hefyd, dangosodd yr adroddiad fod 1 o bob 6 o bobl hŷn yng Nghymru bellach yn byw mewn tlodi, a bod hyn yn effeithio'n fwy llym ar rai grwpiau penodol. Yn yr un modd, mae 1 o bob 5 person hŷn yng Nghymru wedi gorfod mynd heb wres yn ystod y 12 mis diwethaf, tra bod chwarter wedi mynd heb brydau bwyd neu wedi bwyta llai.

Yn yr adroddiad, fe wnes i alw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gymryd amrywiaeth o gamau gweithredu i sicrhau bod pobl hŷn sy'n byw mewn tlodi yn cael eu cefnogi'n well, gan gynnwys mynd i'r afael â throthwy incwm 'didostur' y Credyd Pensiwn, sefydlu Cronfa Gwytnwch newydd ar gyfer y rheini sy'n wynebu caledi difrifol, a buddsoddi fwyfwy mewn effeithlonrwydd ynni i leihau tlodi tanwydd.

Roedd fy adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion i awdurdodau lleol, i gwmnïau cyfleustodau ac i ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd, sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r cymorth sydd ar gael i bobl hŷn drwy ehangu cynlluniau sydd eisoes yn bodoli (fel tariffau cymdeithasol) ac adeiladu ar arferion da eraill yn y gymuned.

## Canllaw i gynllunio gofal i'r dyfodol

Mi wnes i greu a lansio canllaw newydd i gynllunio gofal i'r dyfodol, gan ymateb i sgyrsiau â llawer o bobl hŷn a oedd wedi dweud wrthyf – er eu bod yn awyddus i bwyso a mesur sut gallent sicrhau bod eu dymuniadau'n cael eu parchu i'r dyfodol – eu bod yn cael trafferth dod o hyd i wybodaeth glir am y dewisiadau sydd ar gael.

Mae'r canllaw yn cyflwyno amrywiaeth eang o wybodaeth ddefnyddiol am y ffyrdd y gallwn feddwl am ein dymuniadau ar gyfer y dyfodol, eu trafod a'u cofnodi.

Ymdrinnir â phynciau y mae llawer o bobl yn gyfarwydd â nhw'n barod o bosibl, fel gwneud ewyllys neu roi organau, yn ogystal â threfniadau llai cyfarwydd, fel sefydlu Atwrneiaeth Arhosol neu Ddatganiad Ymlaen Llaw.

Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys adnoddau a thempledi sy'n gallu helpu pobl i gynllunio gofal ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â manylion sut i gysylltu â sefydliadau sy'n gallu darparu gwybodaeth a chymorth defnyddiol.

Cynhyrchwyd y canllaw mewn fformat digidol ac ar bapur, yn ogystal ag mewn fersiynau Sain, Iaith Arwyddion Prydain a Hawdd eu Darllen, i sicrhau bod cynifer o bobl hŷn â phosibl yn gallu defnyddio'r cynnwys a theimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud eu dymuniadau'n hysbys.

Mae dros 2,000 o gopïau papur o'r canllaw wedi cael eu dosbarthu i bobl hŷn mewn cymunedau ledled Cymru, a hynny'n uniongyrchol a drwy bartneriaid lleol, gan helpu i sicrhau bod pobl hŷn yn teimlo eu bod wedi'u grymuso'n well i roi trefniadau ar waith i ddiogelu eu hanghenion a'u dymuniadau i'r dyfodol.

## Canllaw syml i Atwrneiaeth Arhosol

Gweithiais mewn partneriaeth â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i greu fersiwn ddiweddar o'm canllaw syml i Atwrneiaeth Arhosol, un o'r canllawiau gwybodaeth mwyaf poblogaidd a gynhyrchwyd gan fy swyddfa.

Mae'r canllaw yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwahanol fathau o Atwrneiaeth Arhosol, a'r camau y mae angen i rywun eu cymryd os yw'n dymuno sefydlu Atwrneiaeth Arhosol. Mae'r canllaw wedi'i ysgrifennu mewn iaith glir a hawdd ei deall - rhywbeth sy'n cael ei wir werthfawrogi yn ôl yr adborth gan bobl hŷn - ac mae'n adlewyrchu'r newidiadau i'r trefniadau a wnaed y llynedd.

Mae miloedd o gopïau o'r canllaw wedi cael eu dosbarthu i bobl hŷn ledled Cymru, ac mae'r fersiynau hygyrch wedi cael eu llwytho i lawr a'u gweld gannoedd o weithiau, gan ddarparu gwybodaeth hanfodol a chynyddu ymwybyddiaeth ymysg pobl hŷn a'u hanwyliaid.

# Darparu Cyngor a Chymorth i Bobl Hŷn Iedled Cymru

***"Roedd y gwasanaeth a gefais yn ardderchog ac rwy'n credu ei fod wedi bod yn allweddol i'w gwneud yn haws cyfathrebu gyda'r sefydliad dan sylw. Diolch."***

Mae fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth yn helpu pobl hŷn a'u cynrychiolwyr i ddeall eu hawliau, mae'n eu cefnogi os ydynt yn cael problemau gyda gwasanaethau cyhoeddus (fel iechyd, gofal cymdeithasol neu dai) ac yn cynnig cymorth pan allai rhywun fod wedi cael ei drin yn annheg.

Mae'r Tîm yn rhoi cyngor a chymorth cyfrinachol i bobl hŷn dros y ffôn, drwy lythyr ac e-bost, yn ogystal ag wyneb yn wyneb mewn digwyddiadau ymgysylltu.

Yn ystod 2025-26, cefnogodd fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth 707 o ymholiadau, sy'n gynnydd o 15% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd 544 yn ymholiadau newydd, sy'n gynnydd o 4% o'i gymharu â 2024-25.

Er bod nifer fawr o ymholiadau'n ymwneud â gofal cymdeithasol ac iechyd, darparodd y tîm Gyngor a Chymorth hefyd ar amrywiaeth o faterion allweddol eraill, gan gynnwys tai, materion ariannol, trafnidiaeth, gwahaniaethu ac amheuaeth o gam-drin. Mewn sawl achos, mae'r ymholiadau'n ymwneud â mwy nag un categori, gan adlewyrchu cymhlethdod y materion y mae fy nhîm yn aml yn rhoi cymorth arnynt.

Mae cipolwg ar y materion penodol a godwyd o dan bob categori wedi'i gynnwys isod:

## Gofal

- Cael gafael ar gymorth
- Fforddiadwyedd a chyllid
- Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl
- Oedi cyn cael asesiadau / gofal yn ei bryd
- Allgáu digidol a hygyrchedd gwasanaethau i bobl hŷn.

## Iechyd

- Cael gafael ar apwyntiad â meddygon teulu, gwasanaethau iechyd arbenigol a diagnosteg (e.e. deintyddion, gwasanaethau iechyd meddwl
- Amseroedd aros
- Oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty oherwydd diffyg gofal yn y gymuned
- Effaith y pwysau sydd ar gyllid ar gyfer iechyd

## Ymholiadau yn ymwneud â thai

- Cyflwr gwael tai yn effeithio ar iechyd a lles
- Prinder tai hygyrch, addasadwy a phriodol i oedran
- Risg o ddigartrefedd
- Oedi a rhwystrau rhag cael cyllid ar gyfer addasiadau i gartrefi
- Fforddiadwyedd tai rhent preifat

## Ymholiadau yn ymwneud ag arian

- Costau byw cynyddol (yn enwedig ynni, bwyd a rhent)
- Dyled a straen ariannol oherwydd incwm hyblyg neu incwm isel, mynediad at fancio wyneb yn wyneb
- Gwasanaethau nad ydynt yn defnyddio arian parod a digonolrwydd pensiwn y wladwriaeth a sicrwydd ariannol yn ddiweddarach mewn bywyd

## Ymholiadau yn ymwneud â’r gymuned

- Cyfleusterau lleol yn cau
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Unigrwydd ac ynysu cymdeithasol
- Prinder gwasanaethau yn y gymuned gan y trydydd sector

## Ymholiadau yn ymwneud â thrafnidiaeth

- Rhwystrau rhag gallu teithio’n ddiogel, yn fforddiadwy ac yn annibynnol
- Prinder gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus
- Gwasanaethau yn lleihau a llwybrau yn newid
- Hygyrchedd ffisegol trafnidiaeth
- Teithio i apwyntiadau iechyd
- Ceisiadau am wybodaeth am gynlluniau trafnidiaeth gymunedol

## Ymholiadau yn ymwneud â chamdriniaeth

- Cam-drin pobl hŷn yn ariannol (gan gynnwys camddefnyddio atwrneiaethau)
- Camdriniaeth ddomestig, esgeulustod neu reolaeth drwy orfodaeth sy’n effeithio ar bobl hŷn
- Problemau gyda phrosesau diogelu

## Ymholiadau yn ymwneud â Gwahaniaethu ar Sail Oedran

- Materion sy’n ymwneud â thegwch, cydraddoldeb a hawliau yn ddiweddarach mewn bywyd
- Oedraniaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth
- Pobl hŷn yn cael eu heithrio o’r broses o greu polisïau neu ymgynghori arnynt

Roedd yr Adborth gan bobl hŷn am ansawdd y gwasanaeth a gynigiwyd gan fy Nhîm Cyngor a Chymorth yn ystod 2025-26 yn gadarnhaol iawn, gan ddangos y canlynol:

- Roedd 83% yn cytuno’n gryf neu’n cytuno eu bod yn cael eu trin â pharch
- Roedd 82% yn cytuno’n gryf neu’n cytuno eu bod yn teimlo eu bod yn cael gwrandawiad
- Roedd 75% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y cyngor a'r cymorth a gafwyd yn ddefnyddiol
- Roedd 82% yn cytuno’n gryf neu’n cytuno y byddent yn argymell Gwasanaeth Cyngor a Chymorth y Comisiynydd.

Mae'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth bobl hŷn drwy'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn amhrisiadwy i dynnu sylw at yr heriau a'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu, yn ogystal â’r materion sy'n codi ac y mae angen i lunwyr polisïau a phenderfyniadau roi sylw iddynt. Mae hyn yn helpu i lywio fy ngwaith a’m galwadau am weithredu, yn ogystal ag yn helpu â’r gwaith o greu fy Strategaeth a’m Rhaglen Waith.

# Ymgysylltu â phobl hŷn

Mae cwrdd a siarad â phobl hŷn ledled Cymru yn rhan allweddol o'm gwaith, gan ddarparu cyfleoedd hanfodol i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am y pryderon a'r heriau sy'n effeithio ar eu bywydau ac, yn bwysig iawn, eu barn a'u syniadau ynghylch sut gellir mynd i'r afael â'r rhain yn effeithiol. Mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn gyfle imi ddosbarthu canllawiau gwybodaeth ac adnoddau, a hefyd ddarparu cyngor a chymorth wyneb yn wyneb i bobl hŷn.

Yn ystod 2025-26, ymwelodd fy nhîm a minnau â 114 o grwpiau ledled Cymru, gan ein galluogi i gwrdd â dros 4,000 o bobl hŷn o gefndiroedd a chymunedau amrywiol.

Roedd y gweithgaredd hwn yn cynnwys ymweld â grwpiau a chlybiau gweithgareddau a chymdeithasol, grwpiau cymorth (fel y rhai ar gyfer gofalwyr a phobl sy'n byw gyda dementia), cynlluniau tai gofal ychwanegol a chartrefi gofal. Cyfarfuom hefyd â fforymau pobl hŷn ledled Cymru, yn ogystal â grwpiau eraill fel Sefydliad y Merched, Men's Sheds, a Merched y Wawr.

Fe wnes i hefyd ddal i gynnal cyfarfodydd rheolaidd â Chadeiryddion sefydliadau pobl hŷn cenedlaethol – Cymru Egnïol, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol a Fforwm Pobl Hŷn Cymru – i edrych ar y materion allweddol, gwrando ar brofiadau eu haelodau, a rhannu gwybodaeth a diweddariadau allweddol.

Rwyf hefyd yn defnyddio dulliau eraill i estyn allan a chysylltu â phobl hŷn, gan ganolbwyntio ar gyrraedd unigolion nad ydynt ar-lein. Mae fy nghylchlythyr, er enghraifft, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fy ngwaith, gyda channoedd o gopïau papur yn cael eu dosbarthu ledled Cymru bob chwarter. Mae gweithio gyda'r cyfryngau (rhagor o wybodaeth isod) hefyd yn rhoi cyfleoedd i mi dynnu sylw at fy safbwynt ar faterion allweddol, y camau rwy'n galw amdanynt, a'r problemau a'r pryderon y mae pobl hŷn a rhanddeiliaid yn eu codi.

Mae fy mhresenoldeb cryf ar-lein hefyd wedi fy ngalluogi i rannu amrywiaeth eang o wybodaeth ac adnoddau â degau o filoedd o bobl hŷn ledled Cymru drwy fy ngwefan a sianeli'r cyfryngau cymdeithasol.

# Ymgysylltu â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid

Fe wnes i ddal i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o sefydliadau sy’n rhanddeiliaid ledled Cymru, y DU ac yn ehangach i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion, tynnu sylw at faterion y mae pobl hŷn yn eu codi a rhannu gwybodaeth a thystiolaeth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn cael gwrandawiad, dealltwriaeth ac ymateb.

Roedd hyn yn cynnwys aelodau rhwydweithiau a grwpiau cynghori allweddol sy’n cael eu cynnal gan gyrff cyhoeddus, yn ogystal â dwyn ynghyd sefydliadau allweddol ar gyfer digwyddiadau bord gron a gweminarau i wella dealltwriaeth, dylanwadu ar ffyrdd o feddwl a sicrhau ymrwymiadau i weithredu.

Ymgysylltwyd yn rheolaidd hefyd â chyrff cyhoeddus a sefydliadau allweddol fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae hyn wedi rhoi inni gyfleoedd i dynnu sylw at y problemau, codi pryderon, galw am weithredu lle bo angen, a chanfod cyfleoedd i gydweithio er budd pobl hŷn.

At hynny, cyflwynais brif areithiau mewn amrywiol gynadleddau a digwyddiadau; mae hynny’n rhoi cyfleoedd i estyn allan at gynulleidfaoedd newydd (cannoedd o bobl yn aml), sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael gwrandawiad, siapio trafodaethau a dadleuon a dylanwadu ar benderfyniadau ac ar gynlluniau.

Yn ystod 2025-26, roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys hawliau dynol a’r angen am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl hŷn, mynd i’r afael â thlodi tanwydd, gwella practisau meddygon teulu a thrawsnewid rheoliadau cynllunio i’w gwneud yn fwy oed-gyfeillgar.

Rwyf hefyd yn cynnal partneriaethau a rhwydweithiau gyda sefydliadau allweddol sy’n gweithio tuag at nodau tebyg i mi a fy nhîm, gan gynnwys gwaith sy’n dal i fynd rhagddo gydag aelodau fy Ngrŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin a Rhwydwaith sefydliadau pobl hŷn y DU, fel Age UK a Chomisiynydd Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon.

Mae hyn yn rhoi inni gyfleoedd i weithredu drwy ddulliau cydgysylltiedig, strategol er mwyn rhoi sylw i’r materion allweddol, ac i godi pryderon ar y cyd, gydag un llais pwerus.

# Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Senedd

Mae craffu ar weithredoedd a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru, a’u dwyn i gyfrif, yn rhan allweddol o fy rôl ac yn ystod 2025-26 fe wnes i godi pryderon a galw am welliannau sawl tro pan fo polisïau a/neu arferion wedi methu ag amddiffyn a chefnogi pobl hŷn yn ddigonol.

Mae hyn wedi cynnwys galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i fynd i’r afael â’r argyfwng gofal mewn coridorau yng Nghymru.
- Sefydlu cronfa gwytnwch ar gyfer pobl hŷn sy’n wynebu caledi ariannol difrifol nad ydynt yn gymwys i gael mathau eraill o gymorth, ochr yn ochr â chynyddu buddsoddiadau mewn effeithlonrwydd ynni i leihau’r niwed y mae tlodi tanwydd yn ei achosi
- Darparu cyllid er mwyn galluogi awdurdodau lleol i fynd ati i ganfod pobl hŷn a allai fod yn colli allan ar hawliadau ariannol hanfodol a’u helpu i hawlio.
- Sicrhau bod menywod hŷn yn cael cyfleoedd ystyrlon i godi eu llais er mwyn siapio datblygiad canolfannau lles i fenywod
- Darparu buddsoddiad tymor hwy i helpu i ddatblygu cymunedau oed-gyfeillgar er mwyn galluogi sefydliadau partner lleol i gynllunio a darparu gwasanaethau’n fwy effeithiol

Cyn Etholiadau’r Senedd, mi wnes i gyhoeddi fy nogfen ‘Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru’, gan geisio cael ymrwymiadau yn eu maniffesto i fynd i’r afael â'r prif faterion sy’n effeithio ar fywydau pobl hŷn a darparu gwasanaethau a chymorth sy’n ymateb yn effeithiol i anghenion pobl hŷn.

Mae hyn yn cynnwys galwadau i sicrhau nad yw pobl hŷn sydd heb sgiliau digidol yn cael eu hallgáu rhag defnyddio’r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ac i leihau tlodi ymysg pobl hŷn drwy roi cymorth i’r rhai sydd ar eu colled oherwydd trothwy incwm ‘didostur’ y Credyd Pensiwn.

Yn ystod 2025-26, mi wnes i baratoi ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar amrywiol faterion i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael gwrandawiad a bod eu profiadau'n cael eu deall yn well. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys ansawdd gwasanaethau gofal, diwygio gwasanaethau deintyddol, a chanllawiau ar gyfer strategaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) lleol.

Fe wnes i hefyd gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Phrif Weinidog Cymru, Ysgrifenyddion y Cabinet, Gweinidogion a swyddogion allweddol i godi materion yn uniongyrchol ac i bwyso am weithredu i fynd i’r afael â’r rhain.

Ochr yn ochr â hyn, fe wnes i ddal ati i weithio gydag aelodau'r Senedd yn ehangach, gan ddarparu tystiolaeth i ymchwiliadau ac ymgynghoriadau Pwyllgorau ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Craffu ar Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymchwiliad i wella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl

- Y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb 2026-27 Llywodraeth Cymru
- Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:  Craffu ôl-ddeddfwriaethol

Cynhaliais hefyd gyfarfodydd gydag Arweinyddion ac Aelodau pob plaid yn y Senedd i rannu gwybodaeth am brofiadau heneiddio ac i drafod y polisïau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella bywydau pobl hŷn, gan helpu i lywio dadleuon a phenderfyniadau.

Fe wnes i ddal i ddarparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Undod Rhwng Cenedlaethau, gan ddwyn ynghyd Aelodau'r Senedd, pobl hŷn ac iau, ymarferwyr ac ymchwilwyr academaidd allweddol, gyda'r nod o gefnogi camau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng cenedlaethau a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Fe wnes i hefyd ymgysylltu â'r llywodraeth a gwleidyddion ar lefel y DU pan oedd y materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru yn ymwneud â meysydd nad ydynt wedi'u datganoli.

Yn ystod 2025-26, roedd hyn yn cynnwys ymateb i Gynllun Cynhwysiant Digidol arfaethedig Llywodraeth y DU a darparu tystiolaeth i Drydydd Adolygiad o Bensiwn y Wladwriaeth. Yn ogystal, fe wnes i ddal i bwyso ar Lywodraeth y DU i adolygu ei phenderfyniad ar y Taliad Tanwydd Gaeaf, yn ogystal â galw am fwy o gymorth gyda chostau byw i bobl hŷn, gan gynnwys tariff cymdeithasol ar gyfer dŵr.

# Gweithio gyda'r cyfryngau

Mae gweithio gyda’r cyfryngau yn fy ngalluogi i godi ymwybyddiaeth o faterion a phryderon sy’n effeithio ar bobl hŷn, yn ogystal ag yn rhoi imi gyfleoedd i dynnu sylw at brofiadau pobl hŷn, trafod y camau sydd eu hangen i gyflawni newid a gwelliannau, a chynnig gwybodaeth a sylwadau ar ystod eang o bolisïau ac arferion.

Fe wnes i gynnal presenoldeb cryf yn y cyfryngau gydol 2025-26, gan gyhoeddi datganiadau i'r wasg a hysbysiadau a gyhoeddwyd ar amrywiaeth eang o faterion, yn rhagweithiol ac mewn ymateb i faterion sy'n codi. Rwyf hefyd yn ysgrifennu colofn fisol sy’n canolbwyntio ar faterion amserol ar gyfer y South Wales Argus, gan gyrraedd cynulleidfa o filoedd bob mis.

Yn ystod 2025-26, arweiniodd ymgysylltiad â’r cyfryngau at 243,866,373 o ‘gyfleoedd i weld’ o safbwynt fy ngwaith yn ystod y cyfnod hwn.

Mae adborth gan bobl hŷn yn dangos eu bod yn gwir werthfawrogi fy mod yn codi pryderon am y materion sy'n effeithio ar eu bywydau, a bod ganddynt rywun sy’n sefyll dros eu hawliau. Mae pobl hŷn a’u teuluoedd hefyd yn aml yn cysylltu â’m Gwasanaeth Cyngor a Chymorth i ofyn am help a chymorth, gan fod sylw yn y cyfryngau am fater sy’n taro tant â nhw wedi eu cymell i wneud hynny.

# Edrych ymlaen

Mae fy Rhaglen Waith ar gyfer 2026-27 yn nodi'r amrywiaeth o gamau y byddaf yn eu cymryd i sicrhau newid cadarnhaol i bobl hŷn dros y flwyddyn nesaf.

Mae crynodeb o'r gwaith sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w weld isod:

## Adolygu'r ffordd y caiff cymorth a gwasanaethau allweddol eu darparu i bobl hŷn

**Gwella mynediad, codi safonau a sicrhau bod hawliau'n cael eu cynnal**

- Adolygiadau Ffurfiol o Fynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Eiriolaeth
- Cyhoeddi canfyddiadau ymchwil gofal cymdeithasol
- Archwilio profiadau pobl hŷn o ddigartrefedd
- Cyflymu'r broses o ddarparu addasiadau i'r cartref

## Dylanwadu ar bolisi ac ymarfer ledled Cymru ac yn ehangach

**Rhannu gwybodaeth, cryfhau ymarfer a galluogi newid ystyrlon**

- Dylanwadu ar Lywodraeth newydd Cymru
- Galluogi mwy o graffu ac atebolrwydd yn y Senedd
- Mapio'r cynnydd ar olrhain allgáu digidol
- Gwneud Cymru yn genedl oed-gyfeillgar:

## Gwybodaeth a dealltwriaeth gynyddol ar draws y sector cyhoeddus

**Gwella gwasanaethau, mynd i'r afael ag oedraniaeth a diogelu hawliau pobl hŷn**

- Lansio modiwl dysgu ar oedraniaeth
- Deall anghenion pobl hŷn niwrowahanol
- Atal oedraniaeth ddigidol

## Sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed

**Troi tystiolaeth yn weithredu, ysgogi newid a gwella canlyniadau**

- Ymgysylltu â phobl hŷn mewn cymunedau ledled Cymru
- Prosiect ymchwil Bywyd yng nghefn gwlad Cymru
- Sylw i leisiau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol

**Gallwch ddarllen fy rhaglen waith lawn ar gyfer 2026-27 yma:**

https://comisiynyddph.cymru/rhaglen-waith-y-comisiynydd/

# Adolygiad o gyllid a pherfformiad ariannol

## Cyllid

Yn y cronfeydd wrth gefn statudol ar ddiwedd y flwyddyn (Mawrth 2026), roedd £79,000 (£105,000: 31 Mawrth 2025).

## Perfformiad Ariannol 2025-26

Mae Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 2025-26 yn £1,725,000 (2024-25:

£1,614,000).

Yn ystod 2025-26, defnyddiais 98.13% o’r gyllideb adnoddau a ddyrannwyd i mi gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu bod arian yn cael ei reoli’n effeithiol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio’n effeithlon, gan sicrhau bod adnoddau’n cael eu cyfeirio at gyflawni amcanion a blaenoriaethau’r sefydliad.

## Crynodeb o’r rhagolwg ariannol

Ar 31 Hydref 2024, cyflwynais Amcangyfrif 2025-26 i Lywodraeth Cymru yn gofyn am gyllideb o £1,722,000. Cafodd hyn ei fodelu ar y Comisiynydd yn cael cynnydd o £41,000 (2.44%), gyda risgiau parhau â chyllideb wastad yn cael eu hamlygu. Nid oedd y dyraniad cychwynnol yn ystyried y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2025.

Ym mis Mawrth 2025, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y dyraniad cyllid ar gyfer 2025-26: cyllid adnoddau o £1,750,000 a chyllid arian parod o £1,715,000.

Roedd y cyllid adnoddau’n cynnwys £20,000 ar gyfer dibrisiant ar gyllid cyfalaf i’r System Rheoli Gwaith Achos. Gan nad oedd y prosiect hwn yn mynd rhagddo, addaswyd y cyllid adnoddau i £1,730,000, ond arhosodd y cyllid arian parod, sef £1,715,000 yr un fath.

Ym mis Hydref 2025, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru mewn llythyr amrywiad i’r dyfarniad a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Mawrth 2025. Cafodd y gyllideb adnoddau wreiddiol o £1,730,000 ei chynyddu £18,000 i dalu am gynnydd mewn Yswiriant Gwladol a £10,000 arall fel Cyllid ar gyfer y Bwlch Cyflog yn 2025-26, gan arwain at gyfanswm cyllideb adnoddau ddiwygiedig o £1,758,000.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu i mi gyllideb adnoddau o £1,811,000 ar gyfer 2026-27, ac mae hon wedi cael ei dyrannu’n llawn i gefnogi fy ngwaith parhaus. Mae’r cynllun ariannol tymor canolig yn dangos bod pwysau o hyd ar y gyllideb, a disgwylir y bydd diffyg o £16,000 yn 2027-28 a £38,000 yn 2028-29.

**Rhian Bowen-Davies**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

10 Medi 2026

# Adroddiad ar Gynaliadwyedd

Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn flaenoriaeth allweddol, a bwriad y sefydliad yw gwneud penderfyniadau sy’n ystyriol a chynaliadwy pan fo hynny’n bosibl.

Fodd bynnag, fel sefydliad bach, gydag adeilad swyddfa ar brydles, prin yw'r cyfleoedd i gael effaith sylweddol. Oherwydd hyn, mae ein gwaith i wella cynaliadwyedd yn canolbwyntio ar faint o ynni a ddefnyddir ac ar allyriadau.

## Gweithio o bell

Mae polisi gweithio hybrid y sefydliad, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2022, yn galluogi staff i weithio'n hyblyg, sicrhau gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a gwneud penderfyniadau am eu hamgylchedd gwaith.

Gweithio o bell sy’n cael ei ffafrio gan yr holl staff ac mae hyn yn lleihau ôl troed carbon y sefydliad yn sylweddol gan fod llai yn teithio i'r gwaith ac mae llai o bwysau ar randdeiliaid i deithio i gyfarfodydd. Mae’r cam hwn hefyd yn hwyluso’r newid at weithio heb bapur.

## Gofod swyddfa

Yn 2022-23 fe wnaeth y sefydliad leihau dros 75% ar ei ofod swyddfa. Roedd yr hen swyddfa yn 4,640 troedfedd sgwâr ac mae’r swyddfa newydd yn 976 troedfedd sgwâr.

Hwn oedd y cyfrannwr mwyaf at leihau ôl troed carbon y sefydliad.

## Cyfleusterau swyddfa

Fel tenantiaid, ychydig iawn o ddylanwad sydd gennym dros y cyflenwad a’r ddarpariaeth dŵr a nwy. Mae trydan y swyddfa yn cael ei gyflenwi gan dariff ynni gwyrdd 100%, ac mae’r holl oleuadau yn LED ac yn effeithlon o ran ynni.

Mae gweithdrefnau’n bodoli ar gyfer ailgylchu deunyddiau, gan gynnwys papur, cardfwrdd a gwastraff bwyd. Ceir gwared â phapurau sy’n cynnwys gwybodaeth sensitif drwy gyfleusterau ailgylchu gwastraff cyfrinachol.

Rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddeunyddiau sy’n ystyriol o’r amgylchedd gan gynnwys papur ac amlenni wedi eu hailgylchu a defnyddir cynnyrch glanhau ecogyfeillgar yn unig.

## Cyfarfodydd

Wrth drefnu cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid proffesiynol, bydd staff yn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gynnal y cyfarfod hwnnw, gan ystyried y gofynion teithio, sy’n eu galluogi i ddefnyddio fideo-gynadledda fel un o’r prif ffyrdd o ymgysylltu yn hytrach na theithio a chwrdd wyneb yn wyneb.

## Teithio

Pan fo angen i staff deithio i wahanol rannau o Gymru er mwyn sgwrsio â phobl hŷn a rhanddeiliaid proffesiynol, mae gofyn iddynt bennu’r dull mwyaf amgylcheddol gyfeillgar o deithio megis defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu rannu car.

## Ôl Troed Carbon

Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'n hôl troed carbon, rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom weithio mewn partneriaeth â darparwr cynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth o garbon blaenllaw i asesu ein hallyriadau a darparu hyfforddiant pwrpasol i wella sgiliau'r holl staff.

Cyfrifwyd mai cyfanswm cyffredinol ein hallyriadau carbon ym mis Mawrth 2025 oedd 17.53 tCO2e, ac ystyriwyd bod hwn yn isel i sefydliad bach.

Er nad oeddem yn gallu cyfrifo ein hamcangyfrif o allyriadau carbon ar gyfer 2025-26, rydym yn disgwyl iddynt aros yr un mor isel gan nad yw ein harferion gweithio wedi newid.

## Addysg

Yn Ch1 2025-26, fe wnaeth yr holl staff gwblhau’r modiwl hyfforddi pwrpasol, sy'n cael ei ddatblygu a'i gyflwyno gan y prif ddarparwr ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd.

## Gwrthbwyso ôl troed carbon

I gydnabod yr effaith negyddol y mae allyriadau carbon yn dal i’w chael ar y blaned, rhoddir rhodd ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i wrthbwyso allyriadau carbon y sefydliad. Defnyddir yr arian i gefnogi prosiectau ledled y byd sy’n lleihau allyriadau carbon drwy fesurau osgoi a chynhyrchu ynni glân/adnewyddadwy.

## Monitro

Adolygwyd y Polisi Cynaliadwyedd yn ystod mis Mawrth 2026, a rhoddwyd polisi a chynllun gweithredu diweddar ar waith.

**Rhian Bowen-Davies**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

10 Medi 2026

# Adroddiad Atebolrwydd

Mae fy Adroddiad Atebolrwydd yn amlinellu prif nodweddion y ffordd rwy'n rheoli'r sefydliad. Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Fy adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys manylion sut rwy'n dangos cydymffurfiaeth a threfn lywodraethu gorfforaethol gadarn.
- Fy adroddiad ar Daliadau a Staff, sy'n rhoi gwybodaeth am daliadau uwch-reolwyr, fy natgeliad cyflog teg a gwybodaeth sy'n ymwneud â materion cyflogaeth eraill.
- Adroddiad yr Archwiliad sy'n cynnwys y farn derfynol gan ein harchwilydd am y datganiadau ariannol.

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae gwybodaeth am fy strwythur llywodraethu, gan gynnwys fy Uwch Dîm Arwain a'm Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, i'w gweld yn fy Natganiad Llywodraethu ar dudalennau 48 i 57. Mae'r wybodaeth hon ar fy ngwefan hefyd.

Dolen i'r wefan: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

## Adroddiad y Cyfarwyddwr

### Rôl y Comisiynydd

Mae rôl a phwerau statudol y Comisiynydd yn cael eu diffinio gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau cysylltiedig.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r camau y gall y Comisiynydd eu cymryd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn gweithredu eu swyddogaethau, a'r cymorth y gall y Comisiynydd ei roi'n uniongyrchol i bobl hŷn.

Fel Corfforaeth Undyn a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn bersonol gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad. Rwy'n annibynnol ar Weinidogion Cymru ac yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swyddfa.

### Dirprwy Gomisiynydd

Yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 4 (3), rhaid i mi benodi Dirprwy Gomisiynydd. Caiff y Dirprwy Gomisiynydd gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd pan fydd swydd y Comisiynydd yn wag neu unrhyw bryd pan na fydd y Comisiynydd, am unrhyw reswm, yn gallu gweithredu.

Kelly Davies, y Prif Swyddog Gweithredu, a benodwyd yn Ddirprwy Gomisiynydd.

## Codi pryderon

Ym mis Tachwedd 2016, daeth rôl y Comisiynydd yn 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (y Ddeddf) ar gyfer materion yn ymwneud â hawliau a lles pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn gweithwyr sy'n chwythu'r chwiban, ar yr amod bod y gweithiwr sy'n cyflwyno'r datgeliad yn credu'n rhesymol ei fod yn berthnasol i gylch gwaith y Comisiynydd a bod y wybodaeth sy'n cael ei datgelu ac unrhyw honiadau a geir ynddi yn sylweddol wir.

Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'm swyddfa ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law, gan mai dim ond datgeliadau sy'n dod o fewn cwmpas fy swyddogaethau statudol ac o fewn paramedrau fy mhwerau statudol y mae modd i mi ymchwilio iddynt.

Yn ystod 2025-26, ni chodwyd dim pryderon o ganlyniad i fod yn 'berson rhagnodedig' (2024-25: dim).

## Yr Iaith Gymraeg

Er 25 Ionawr 2017, rwyf wedi ymrwymo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi nifer o ffyrdd y mae'n rhaid i mi ddarparu a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, a hwyluso a hybu'r defnydd o'r iaith yn y gweithle.

Yn ystod 2025-26, rwyf wedi cydymffurfio â'r holl Safonau ac wedi parhau i ddangos fy ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Yn ystod 2025-26, derbyniwyd un gŵyn o dan gydymffurfiaeth polisi cwynion Safonau'r Gymraeg (2024-25: dim). Cadarnhawyd y gŵyn a rhoddwyd y gwersi a ddysgwyd oddi wrth yr adolygiad ar waith.

Ar 31 Mawrth 2026, roeddwn yn cyflogi 18 aelod o staff. Cynhaliwyd arolwg o'r Gymraeg yn ystod mis Mawrth 2026. Roedd yn gofyn i staff hunanasesu eu sgiliau gan ddefnyddio matrics rhuglder ar gyfer Gwrando, Darllen, Ysgrifennu a Siarad. Ymatebodd yr holl staff i'r arolwg, fel y gwnes innau. Dangosodd y canlyniadau fod 55% o'r sefydliad yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg hyfedr, mae hwn yn ostyngiad bach o 4% ers y flwyddyn flaenorol.

Rwy'n parhau i ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i bob gweithiwr gael hyfforddiant y Gymraeg, wedi'i ariannu'n llawn gan y sefydliad. Yn ystod 2025-26, manteisiodd un aelod o staff ar y cyfle hwn.

## Cynllun cydraddoldeb strategol

Fel hyrwyddwr a llais annibynnol ar ran pobl hŷn ledled Cymru, rwy'n gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywydau pobl hŷn.

Mae llawer o'r materion sy'n wynebu pobl hŷn yn seiliedig ar anghydraddoldeb a methiant i gydnabod a chynnal eu hawliau.

Mae deall profiadau bywyd pobl hŷn yn eu holl amrywiaeth yn hanfodol i sicrhau bod y cymorth a’r gwasanaethau’n diwallu anghenion pobl.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu, cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 - 2026 yn Ebrill 2024, sy’n nodi’r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd dros gyfnod o ddwy flynedd i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach yn ein gwaith mewnol ac allanol.

Mae’r Cynllun yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd er mwyn gallu pontio cyfnod Comisiynwyr. Bydd Cynllun Strategol pedair blynedd (2026-30) yn cael ei gyhoeddi yn 2026.

Gosodwyd yr amcanion canlynol ar gyfer 2024-26:

- Bydd y Comisiynydd yn hyrwyddo diwylliant mewnol sy’n groesawgar ac yn gefnogol, gan sicrhau cyfle cyfartal i bob gweithiwr.
- Bydd y Comisiynydd yn cynyddu ymwybyddiaeth a chyrhaeddiad y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth.
- Bydd y Comisiynydd yn cryfhau’r trefniadau ar gyfer ymgysylltu, cyfathrebu ac ymwneud â phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau bod eu lleisiau’n sail i waith ehangach.
- Bydd y Comisiynydd yn parhau i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn llywio ac yn dylanwadu ar systemau a gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal ag ar waith cynllunio ac ymarfer.

Cyhoeddir adroddiad cynnydd 2025-26 yn erbyn yr amcanion hyn erbyn 30 Medi 2026.

## Trefniadau Pensiwn

Rwyf fi a’r staff a gyflogir yn uniongyrchol gennyf yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir manylion pellach yn yr Adroddiad ar Staff a Thaliadau.

## Polisi Taliadau

Rwy’n gwneud fy ngorau i gydymffurfio â Pholisi Taliadau Prydlon Llywodraeth Cymru. Y targed yw gwneud taliadau o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfonebau nad oes anghytuno yn eu cylch ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd.

Roedd perfformiad taliadau’r flwyddyn, ar gyfartaledd, yn 96.89% o daliadau prydlon (94.1% yn 2024-25). Ni thalwyd llog oherwydd taliadau hwyr.

## Llywodraethu Gwybodaeth

I gydnabod pwysigrwydd hanfodol rheoli risgiau diogelwch sy’n ymwneud â rheoli data,

yn Ionawr 2026, cafodd fy sefydliad ei ailardystio ar gyfer achrediad Lefel Un IASME (Sicrhau Gwybodaeth i Fusnesau Bach a Chanolig), a fydd yn cefnogi'r achrediad Cyber Essentials Plus sydd gan fy sefydliad eisoes.

Mae diogelu data personol yn bwysig iawn, ac yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys data personol a gedwir sy'n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran pobl hŷn yng Nghymru, a thystiolaeth a gasglwyd gennyf fi wrth gyflawni fy swyddogaethau. Yn 2025-26, ni chafwyd dim achosion mewnol yn ymwneud â diogelwch data (2024-25: 0).

Yn ystod 2025-26, derbyniais dri chais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (2024-25: 4). Ymatebwyd i bob cais o fewn yr amserlenni penodol.

Ni chefais unrhyw Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun (2024-25: 0).

## Cofrestri

Byddaf yn cyhoeddi manylion am fy nhreuliau fy hun – y rhai uniongyrchol a'r rhai yr eir iddynt ar fy rhan – ar fy ngwefan bob chwarter. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn edrych yn ofalus ar fy nhreuliau ym mhob cyfarfod.

Dolen i'r wefan: Treuliau'r Comisiynydd

Rwy'n cadw cofrestr o'r holl roddion a'r lletygarwch sydd wedi'u derbyn a'u gwrthod, yn rhinwedd fy nyletswyddau swyddogol. Caiff y gofrestr hon ei diweddaru bob chwarter a'i chyhoeddi ar fy ngwefan. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r gofrestr hon ym mhob cyfarfod.

Dolen i'r wefan: Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

Fel rhan o'u telerau penodi, mae gofyn i holl weithwyr cyflogedig ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg fabwysiadu Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan. Yr egwyddorion hyn, ynghyd â'm diwylliant a'm gwerthoedd corfforaethol, yw'r sail i'm Cod Ymddygiad. Mae'n rhaid i weithwyr cyflogedig ac aelodau'r Pwyllgor ddilyn y Cod hwn a'i gadw'n gyfredol.

Mae'r Cod Ymddygiad yn nodi bod holl weithwyr cyflogedig ac aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cymryd camau i osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau, drwy gofrestru a datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau personol a gwaith y Comisiynydd wrth iddynt godi.

Mae cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Cyfarwyddwyr ac aelodau Pwyllgor ar gael ar fy ngwefan.

Dolen i'r wefan: Cofrestr Buddiannau

## Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod 2025-26, nid oeddwn i nac unrhyw aelod arall o'm Huwch Dîm Arwain na'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, nac unrhyw aelod o'u teuluoedd, yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn

anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa, ac eithrio'r taliadau cyflog a'r hawliadau arferol am dreuliau.

## Trefniadau archwilio

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio'r Cyfrifon hyn, yn unol â pharagraff 12, Atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Cost archwilio cyfrifon 2025-26 yw £21,085 (£19,000: 2024-25). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2025-26 (£dim: 2024-25).

Yn ystod 2024-25, ymgymerais â thendr ar y cyd ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Dyfarnwyd contract tair blynedd i TIAA Ltd, a oedd yn dechrau ym mis Ebrill 2025, gydag opsiwn i ymestyn y contract hwnnw am ddwy flynedd arall.

## Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd dim digwyddiadau o bwys rhwng diwedd y flwyddyn ac adeg cymeradwyo'r cyfrifon hyn.

## Datgelu gwybodaeth archwilio berthnasol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n ymwybodol nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod yr archwilwyr hefyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Rhian Bowen-Davies**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

10 Medi 2026

# Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, (y Ddeddf), Atodlen 1, Paragraff 10, rhaid i mi:

- Gadw cofnodion cyfrifyddu priodol; a
- Pharatoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir, gyda chydsyniad y Trysorlys, gan Weinidogion Cymru.

Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ei incwm a'i wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- glynu wrth y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u cyflwynir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw.

Yn ogystal, gallaf gadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r farn sydd eu hangen i benderfynu bod y rhain yn deg, yn gytbwys, ac yn ddealladwy.

Mae Prif Weinidog Cymru wedi fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a dros ddiogelu asedau'r Comisiynydd, fel y'i nodir yn y memorandwm - 'Rheoli Arian Cyhoeddus' - a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi, a 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn i fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyn belled ag yr ydw i'n ymwybodol, does dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethu

## Cyfrifoldebau

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi sail dyletswyddau statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, sut caiff fy ffordd o gyflawni fy nyletswyddau ei llywodraethu a'i rheoli, a sut rwyf i, fel Comisiynydd, yn cynnal atebolrwydd am yr hyn a wnaf i a'r sefydliad.

## Rôl y Comisiynydd

Sefydlwyd swydd statudol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel Corfforaeth Unigol o dan Adran 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. (Deddf CPH (Cymru) 2006).

Nodir fy nghyfrifoldebau fel y Swyddog Cyfrifyddu yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am sefydlu a chynnal trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd.

Fel Corfforaeth Undyn a'r Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn bersonol gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad. Fodd bynnag, mae adran 5 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn datgan y "caiff unrhyw berson, gan gynnwys unrhyw aelod o'i staff, gyflawni swyddogaeth y Comisiynydd ar ei ran, i'r graddau a awdurdodir gan y Comisiynydd". Rwyf felly wedi sefydlu Cynllun Dirprwyo lle gall aelodau o fy nhîm sydd wedi'u pennu ymlaen llaw fy helpu i gyflawni fy nyletswyddau statudol. Nid yw'r Cynllun Dirprwyo hwn yn lleihau fy atebolrwydd fel y Swyddog Cyfrifyddu mewn unrhyw ffordd.

Gan nad oes gennyf Fwrdd Corfforaethol, fel sydd gan gyrff cyhoeddus eraill yn nodweddiadol o bosibl, mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Pwyllgor) i'm cynorthwyo drwy roi sicrwydd ynghylch sut caiff y sefydliad ei lywodraethu, gan gynnwys rheoli risg, a phriodoldeb a chysondeb wrth ddefnyddio cyllid cyhoeddus.

Rwy'n annibynnol ar Weinidogion ac, yn ddarostyngedig i Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol fy swyddfa.

Rwy'n atebol i Senedd Cymru am fy ngweithredoedd i a gweithredoedd fy swyddfa. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus graffu ar fy adroddiad blynyddol a'm cyfrifon ac ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y modd yr wyf yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir i mi er mwyn cyflawni fy nyletswyddau statudol.

## Strwythur Llywodraethu

Mae fy strwythur llywodraethu yn cynnwys Uwch Dîm Arwain a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n rhaid i mi enwebu Dirprwy a all gyflawni dyletswyddau statudol y Comisiynydd os yw'r swydd yn wag, neu os na fyddaf i yn gallu gweithredu unrhyw dro am unrhyw reswm. Fy Nirprwy enwebedig yw Kelly Davies, mae hi hefyd yn Brif Swyddog Gweithredu.

## Yr Uwch Dîm Arwain

Rwyf wedi sefydlu Uwch Dîm Arwain i sicrhau dull integredig o reoli risg, llywodraethu, monitro perfformiad a nodi camau unioni angenrheidiol. Yn ystod 2025-26, roedd yr Uwch Dîm Arwain yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredu (a'r Dirprwy Gomisiynydd), y Cyfarwyddwr Polisi, y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau, a minnau.

Gadawodd y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau y sefydliad ar 30 Medi 2025. Yn lle'r swydd honno, sefydlwyd swydd Pennaeth Cyllid newydd, ac nid yw deiliad y swydd hon yn aelod o'r Uwch Dîm Arwain. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y swyddogaeth adnoddau i'r Prif Swyddog Gweithredu.

Fel grŵp, roedd yr Uwch Dîm Arwain yn cwrdd bob mis a chynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol

i drafod eitemau a oedd yn cynnwys cryn dipyn o risg weithredol neu strategol. Mae cyfrifoldebau'r Uwch Dîm Arwain wedi'u nodi yn y Cylch Gorchwyl, ond yn fras rydym yn gwneud y canlynol:

- Yn cefnogi gwaith o ddatblygu nodau strategol a rhaglen waith flynyddol y sefydliad;
- Yn asesu perfformiad cyffredinol y sefydliad yn ôl yr amcanion sydd wedi'u nodi yn y rhaglen waith a chyflawni'r Cynllun Strategol;
- Yn dyrannu adnoddau fy sefydliad yn effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;
- Yn asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd; ac
- Yn sicrhau bod gwerthoedd ac ymddygiad y sefydliad yn hybu diwylliant y sefydliad.

Fel Comisiynydd, rwy'n atebol am unrhyw benderfyniad a wneir.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg annibynnol i'm cefnogi fel Swyddog Cyfrifyddu, i fonitro ac adolygu pa mor gynhwysfawr ac effeithiol yw fy fframwaith llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys archwilio a rheolaeth ariannol, a threfniadau ar gyfer rheolaeth fewnol, gan gynnwys systemau canfod a rheoli risg.

## Fframwaith llywodraethu

Mae fy Uwch Dîm Arwain a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn rhoi sicrwydd i mi ynghylch fy fframwaith llywodraethu, ac yn fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion sy'n berthnasol i Gorfforaeth Undyn o fewn Cod Llywodraethau Corfforaethol y Deyrnas Unedig a'r Safon Llywodraethu Da ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, hynny yw, yn gyson â'r safonau uchel a ddisgwylir gan gorff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus.

Darperir sicrwydd ychwanegol gan archwilwyr mewnol (TIAA Ltd.) ac archwilwyr allanol (Archwilio Cymru).

Mae llywodraethu corfforaethol da yn hanfodol mewn unrhyw sefydliad sy'n cael ei reoli'n dda. Mae'r fframwaith llywodraethu rwy'n ei ddilyn yn seiliedig ar systemau, polisïau a phrosesau allweddol y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt.

Mae'r systemau rheolaeth fewnol hyn yn gweithio mewn modd cydlynol, gan adlewyrchu pwysigrwydd dull gweithredu integredig o lywodraethu a rheoli. Dim ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd y gall y rhain ei ddarparu. Mae'r rheolaethau hyn wedi eu cynllunio i sicrhau bod y risgiau sy'n fy wynebu fel Comisiynydd yn aros o fewn y lefelau goddefgarwch risg a nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Risg.

Mae fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a’r Uwch Dîm Arwain yn cytuno i gadw at fy Nghod Ymddygiad a rhoi gwybod i mi mewn amser real am unrhyw newidiadau yn eu buddiannau busnes, a nodir yn ffurfiol yn ystod cyfarfod chwarterol y Pwyllgor. Mae hyn yn sicrhau bod gwrthdaro posibl rhwng buddiannau, gan gynnwys risgiau i’m hannibyniaeth, yn cael eu nodi’n barhaus a bod camau priodol yn cael eu cymryd i’w lliniaru. Caiff y gofrestr buddiannau ei chyhoeddi ar fy ngwefan.

## Aelodaeth y Pwyllgor

Rwy’n penodi aelodau’r Pwyllgor am dymor cychwynnol o bedair blynedd, y gellir ei ymestyn am hyd at bedair blynedd arall.

Mae cymysgedd sgiliau aelodau'r pwyllgor yn parhau i gael ei adolygu i sicrhau bod gan yr aelodau'r amrywiaeth, y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad cronnus i graffu ar strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu a rheolaeth fewnol cyffredinol y sefydliad.

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn rhoi’r cyd-destun a’r wybodaeth ychwanegol i’r Pwyllgor i fy helpu i gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Yn ystod y flwyddyn roedd yr aelodaeth fel a ganlyn:

- Claire Bevan, dechreuodd ei chyfnod ym mis Ebrill 2020 ac wedyn fe’i penodwyd yn Gadeirydd ym mis Ebrill 2022;
- Julia Evans, dechreuodd ei chyfnod ym mis Ionawr 2019 a daeth i ben ym mis Hydref 2025;
- David Powell, dechreuodd ei gyfnod ym mis Ebrill 2020;
- Chris Knight, dechreuodd ei gyfnod ym mis Ebrill 2022 a chafodd ei ymestyn am ddwy flynedd ym mis Mawrth 2026; a
- Sian Richards, dechreuodd ei chyfnod ym mis Ionawr 2024.

Mae gan y Pwyllgor brofiad sylweddol o sefydliadau’r sector cyhoeddus a’r trydydd sector yng Nghymru. Mae aelodau’r pwyllgor i gyd yn annibynnol ac felly nid ydynt yn darparu gwaith i mi mewn unrhyw swyddogaeth weithredol.

## Cyfarfodydd y pwyllgor

Yn ystod 2025/26, cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor bob chwarter ym mis Ebrill, mis Gorffennaf, mis Medi, mis Hydref a mis Ionawr. Cyflwynodd Sian Richards ei hymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod mis Ebrill 2025, a chyflwynodd David Powell ei ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod mis Ionawr 2026, a rhoddwyd eu sylwadau a’u cyfraniadau i’r Cadeirydd ymlaen llaw. Cofnodwyd presenoldeb llawn gan yr aelodau eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr o’r tîm Archwilio Mewnol ac Allanol.

Cynhaliwyd cyfarfod Medi 2025 i ystyried a chymeradwyo Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024-25.

Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor, mae’r Pwyllgor hefyd yn cyfarfod yn anffurfiol. Yn ystod 2025-26, cynhaliwyd sesiynau anffurfiol yn syth ar ôl y sesiwn ffurfiol. Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn gyfle i’r Comisiynydd ddefnyddio arbenigedd amrywiol y Pwyllgor ymhellach a chynnal trafodaethau manwl ar feysydd gweithredol a strategol penodol a oedd yn cynnwys lefel uchel o risgiau. Mae’r cyfarfodydd hyn hefyd yn rhoi i’r Pwyllgor y cyd-destun a’r wybodaeth ychwanegol i gynorthwyo’r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

## Ffocws y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu o fewn cylch gorchwyl ffurfiol, sy'n seiliedig ar ganllawiau ar arferion gorau a gyhoeddir gan y Trysorlys.

Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, cyflwynwyd adroddiadau chwarterol i'r Aelodau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor ar Risg Strategol, Iechyd Sefydliadol, Llywodraethu, Cyfathrebu, Cyllid a Seiberddiogelwch, a Cherdyn Sgorio Cytbwys. Mae hyn yn rhoi trosolwg o'r holl ddata llywodraethu allweddol.

Ym mhob cyfarfod, darperir trosolwg i'r Pwyllgor o'm treuliau a'r gofrestr rhoddion a lletygarwch, ac ni chodwyd dim pryderon yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Pwyllgor wedi rhoi sylwadau a chyngor ar y Strategaeth Rheoli Risgiau, y Polisïau Codi Pryderon, a'r Polisi Cwynion.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi asesu effeithiolrwydd y drefn Archwilio Mewnol ac Allanol; wedi cael sicrwydd gan yr Archwilwyr Mewnol ar systemau llywodraethu allweddol y Comisiynydd; wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf am raglen waith y Comisiynydd, wedi adolygu Amcangyfrif Ariannol y Comisiynydd ar gyfer 2026-27, ac Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024-25.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan i sicrhau bod fy nhrefniadau llywodraethu yn fwy tryloyw.

## Adolygiad y Pwyllgor o effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu

Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad blynyddol ym mis Ebrill 2026, a oedd yn crynhoi ei gasgliadau o'r gwaith a wnaeth yn ystod 2025-26. Yn yr adroddiad, rhoddodd y Pwyllgor sicrwydd i mi ar y meysydd canlynol yn fy fframwaith llywodraethu. Cadarnhawyd y canlynol ganddynt:

- mae'n ymddangos bod y trefniadau asesu risg a rheoli risg yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol o fewn fframwaith polisi clir;
- mae adroddiadau ariannol yn cyd-fynd â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac mae adroddiadau'n cael eu paratoi yn unol â pholisïau cyfrifyddu priodol;
- mae ei adolygiadau strategol o'r gofrestr risg yn awgrymu bod y fframwaith rheolaeth fewnol yn gweithredu'n effeithiol a'i fod wedi cael ei gryfhau drwy gynnwys yr archwaeth risg a nodwyd ar gyfer pob risg ar y gofrestr;
- mae'r trefniadau llywodraethu ehangach ar gyfer canfod a rhoi gwybod am dwyll a gwyngalchu arian yn gadarn ac yn cyd-fynd ag arferion da;
- mae'r trefniadau seiberddiogelwch yn gadarn a darparwyd sicrwydd pellach drwy gael ardystiad allanol gyda Cyber Essentials ac IASME Lefel 2; ac
- mae'r archwilwyr mewnol ac allanol yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd y Pwyllgor.

Ar gyfer 2025-26, mae'r Pwyllgor o'r farn, ar sail canfyddiadau'r archwilwyr a'i arsylwadau ei hun, y gall ddarparu lefel sylweddol o sicrwydd i mi fod y trefniadau sydd yn eu lle yn parhau i fod yn briodol ac yn parhau i weithredu'n effeithiol.

## Arfarniad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn arfarnu ei effeithiolrwydd a'i weithrediadau ei hun bob blwyddyn. Fe gynhaliodd y Cadeirydd arfarniad gyda'r aelodau eraill o'r Pwyllgor. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, bu'r Cadeirydd a minnau yn trafod ei pherfformiad hi a pherfformiad y Pwyllgor. Yn sgil y trafodaethau hyn, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan nodi bod y Cadeirydd a minnau yn gallu cadarnhau ymrwymiad yr aelodau ac yn gallu rhoi sicrwydd ar effeithiolrwydd y Pwyllgor, ac ar yr amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad y mae'r aelodau yn eu cynnig i'r Pwyllgor.

Yn ogystal â'r arfarniadau rhwng y Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor, mae fy archwilwyr mewnol (TIAA) yn cynnal adolygiad annibynnol bob dwy flynedd o effeithiolrwydd y Pwyllgor. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys trafodaethau ag aelodau'r Pwyllgor.

Fe gynhaliwyd arfarniad y Cadeirydd a'r aelodau Pwyllgor yn ystod mis Mawrth 2025 a dywedodd aelodau'r Pwyllgor y canlynol:

- Roeddent yn croesawu'r gonestrwydd, y tryloywder a'r parch rhwng y Comisiynydd, staff y Comisiynydd a'r Aelodau, a'r cysylltiad cadarnhaol a oedd ganddynt ag aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
- Maent yn llawn edmygedd o ddull arwain ac agwedd proffesiynol y Dirprwy Gomisiynydd/Prif Swyddog Gweithredu, ac o'r ffordd gadarnhaol y mae Comisiynwyr ac uwch rolau eraill y sefydliad yn newid.
- Maent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda, yn cael gwybodaeth o ansawdd da, ac ymatebion amserol i unrhyw gwestiynau sy'n codi.
- Mae ganddynt berthynas broffesiynol ag archwilwyr mewnol ac allanol ac maent yn croesawu'r adroddiadau a'r wybodaeth ychwanegol a ddarperir.
- Maent yn teimlo y ceir trefn lywodraethu o safon dda, a hefyd drefniadau adnabod a lliniaru o safon dda ar gyfer rheoli risgiau; mae'r rhain wedi cael ei gryfhau drwy egluro'r parodrwydd i dderbyn risg.
- Ceir trefn lywodraethu dda gyda'r ystod eang o sgiliau a phrofiad sydd gan aelodau.
- Mae'r aelodau'n glir ynghylch eu rolau, eu cyfrifoldebau, a'r sgiliau a'r profiad y maent yn eu cyfrannu at y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac mae'r Aelodau'n rhan o'r gwaith o adolygu'r set sgiliau sydd ei hangen ar y Comisiynydd, gan sicrhau bod y cydbwysedd cywir o gymorth a chyngor yn cael ei gynnal a'i fod yn gwella amrywiaeth y Pwyllgor.

Yn fy marn i, mae'r Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at y systemau rheoli mewnol a'm blaenoriaethau strategol ehangach.

## Archwilio Mewnol

Rôl archwiliad mewnol yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o'r prosesau rheoli risg, y rheolaethau a'r drefn lywodraethu. Mae'r sicrwydd y mae'r archwiliad mewnol yn ei roi yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac yn un o'r ffynonellau sicrwydd allweddol sy'n ofynnol gennyf i a fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn llywio ffocws gwaith yr archwiliad mewnol ac yn darparu'r dystiolaeth y mae'r datganiad sicrwydd blynyddol ar reolaeth fewnol yn seiliedig arni.

Fel archwilwyr mewnol y Comisiynydd, mae TIAA yn rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ar y prosesau rheoli risg, y rheolaethau a'r drefn lywodraethu.

Yn ystod 2025-26, defnyddiodd y TIAA 20 diwrnod ar raglen o archwiliadau mewnol, a daeth yr adroddiad blynyddol i'r casgliad bod y *"TIAA yn fodlon bod gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn."*

Ategwyd y farn archwilio hon gan yr adolygiadau sicrwydd a chynghori a gynhaliwyd yn ystod 2025-26.

| Maes a Archwiliwyd | Sicrwydd a Roddwyd | Pwyntiau Gweithredu |
|---|---|---|
| Rheoli Risg – Mesurau Lliniaru | Sylweddol | Dim pwyntiau gweithredu wedi'u codi |
| Rheoli Absenoldeb a Lles Staff | Sylweddol | Dim pwyntiau gweithredu wedi'u codi |
| Caffael a Monitro Contractau | Sylweddol | Un pwynt gweithredu arferol |
| Rheolaethau ariannol allweddol | Sylweddol | Dim pwyntiau gweithredu heb eu cwblhau |

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol yn adlewyrchu lefelau sicrwydd yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn, sy'n dangos pa mor gadarn yw mesurau llywodraethu'r prosesau Rheoli Strategol, Rheoli Risg a'r Systemau Ariannol.

## Rheoli Risg

Mae'r fframwaith risg a rheoli mewnol yn cael ei ategu gan y Strategaeth Rheoli Risg ac yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol.

Mae'r fframwaith risg hwn yn cydymffurfio â'r prif egwyddorion sydd wedi'u nodi yn nogfen Llywodraeth EF, Rheoli Egwyddorion a Chysyniadau Risg (Llyfr Oren), gan ystyried maint, strwythur ac anghenion y sefydliad. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau bod y sefydliad wedi gwyro oddi wrth y Llyfr Oren.

Mae'r Strategaeth Rheoli Risg yn cydnabod nad yw'n bosibl dileu pob risg, ond fod y risgiau, drwy'r Gofrestr Risgiau Strategol, yn cael eu cydnabod, eu rheoli a'u lleihau i lefel dderbyniol.

Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi er fy mod yn atebol am bob risg, mae gan y staff rôl hefyd i adnabod risgiau posibl newydd a defnyddio'r camau lliniaru priodol i leihau neu i ddileu risg.

Bydd unrhyw fygythiad neu gyfle sy'n cael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r meysydd a restrir isod yn cael ei ystyried yn ofalus gan aelod o'r Uwch Dîm Arwain cyn ei gymryd. Pan fydd effaith sylweddol bosibl, bydd yn cael ei chyfeirio ataf fi fel risg strategol cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud. Dyma'r meysydd hyn:

- Canlyniad andwyol ar fuddiannau a lles pobl hŷn neu unigolyn hŷn;
- Canlyniad andwyol ar gyflawni amcanion sefydliadol;
- Tanseilio annibyniaeth y Comisiynydd;
- Camau gweithredu neu gamau gweithredu posibl sy'n arwain at ddirwy neu feirniadaeth gan gyrff rheoleiddio;
- Camau gweithredu neu gamau gweithredu posib sy'n arwain at golled ariannol; neu
- Ganlyniad andwyol ar enw da'r Comisiynydd.

Mae achos, effaith, rheolaethau a chamau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â risgiau yn y gofrestr risgiau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n ffurfiol bob mis gan yr Uwch Dîm Arwain, i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i addasu i'r amgylchedd sy'n newid a bod yr holl risgiau byw yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol hefyd yn cael ei hadolygu'n ffurfiol yng nghyfarfod chwarterol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cyflwynir Cofrestr Risg Strategol gyfredol i'r Pwyllgor, y matrics sgorio, a phapur eglurhaol sy'n rhoi manylion y newidiadau mewn sgorio risg a chamau lliniaru dros y chwarter diwethaf a'r rhesymau dros y newidiadau hyn.

Mae 11 o risgiau sefydlog ar y Gofrestr Risg Strategol, sy'n adlewyrchu'r heriau yng nghyd-destun amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

Yn ogystal â'r 11 risg sefydlog yn y Gofrestr Risgiau Strategol, ceir hefyd drafodaeth yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain sy'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau ar gyfer monitro problemau posibl i'r dyfodol sy'n cael y sylw priodol ond nad ydynt wedi cael eu cydnabod eto fel risgiau strategol. Ni chafwyd dim risgiau newydd yn codi o'r trafodaethau hyn i gael eu cydnabod fel risg strategol.

Mae gennyf agwedd gadarnhaol at reoli risg, sy'n golygu nad wyf yn amharod i gymryd risgiau a reolir. Fodd bynnag, nid wyf yn goddef lefel uchel o risg a fyddai'n arwain at fethiant i gydymffurfio â'r drefn lywodraethu, y dyletswyddau statudol a'r gofynion cyfreithiol.

Ym mis Ebrill 2025-26, cafodd templed y gofrestr risg ei ddiweddaru i sicrhau bod parodrwydd i dderbyn risg yn gysylltiedig â phob disgrifiad risg, gan ddefnyddio graddfa Anffafriol, Minimalaidd, Gofalus, Agored ac Awyddus (graddfa'r Llyfr Oren a argymhellir), a bod pob risg yn adlewyrchu fy Nghynllun Strategol 2025-28.

Cafodd y Strategaeth Rheoli Risg hefyd ei diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

## Codi Pryderon

Mae gen i Bolisi Codi Pryderon sefydledig sy'n nodi sut gall staff chwythu'r chwiban os ydynt yn amau bod drwgweithredu neu beryglon yn y gweithle. Mae adnabod drwgweithredu yn fewnol yn elfen hanfodol o reoli risg gorfforaethol ac mae'n cyfrannu at lywodraethu effeithiol.

Os bydd fy staff neu eraill yn mynegi pryderon ynghylch y sefydliad na ellir eu datrys yn rhwydd, rwyf wedi sefydlu trefniadau llywodraethu priodol sy'n cynnwys Polisi Codi Pryderon a Pholisi Cwynion. Caiff unrhyw faterion sy'n ymwneud â fy rôl eu cyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae staff newydd yn cael gwybod am y polisi yn ystod eu cyfnod cynefino, ac yn ystod 2025-26 fe wnaeth y Prif Swyddog Gweithredu roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am y polisi cyfredol.

Yn ystod 2025-26, ni ddaethpwyd ag unrhyw bryderon i'm sylw i nac i sylw Cadeirydd y Pwyllgor o dan fy mholisi Codi Pryderon mewnol (2024-25: 0).

Yn ystod 2025-26, ni wnaed dim cwynion allanol ffurfiol o dan y Polisi Cwynion (2024-25: 0).

## Adolygu Effeithiolrwydd

Byddaf yn parhau i fonitro, cynnal a, phan fo'n briodol, gwella'r fframwaith llywodraethu i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu fy anghenion sicrwydd.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf ddyletswydd gyfreithiol i reoli adnoddau cyhoeddus yn effeithiol ac, o ganlyniad, rwyf yn adolygu effeithiolrwydd fy fframwaith llywodraethu yn barhaus. Mae'r gwaith archwilio mewnol, fy Uwch Dîm Arwain a'r sicrwydd a roddwyd gan fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn ogystal â sylwadau'r archwilwyr allanol (Archwilio Cymru) yn sail i'r adolygiad hwn, ac maent wedi'u cynnwys yn y llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill.

Barn y Comisiynydd ar y Datganiad Llywodraethu

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn y datganiad llywodraethu hwn a dyma fy marn:

- mae'r strwythurau a'r gweithdrefnau llywodraethu a rheolaeth fewnol cyffredinol wedi bod yn briodol i gefnogi fy swyddogaethau a'm blaenoriaethau;
- maent wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol hon; ac
- maent wedi parhau i weithio'n effeithiol hyd at ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon.

Mae'r fframwaith llywodraethu uchod wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, a pharatowyd y datganiad yn unol â chanllawiau'r Trysorlys.

**Rhian Bowen-Davies**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

10 Medi 2026

# Adroddiad ar staff a thaliadau

## Polisi Taliadau

Gweinidogion Cymru sy’n pennu fy nghyflog i fel Comisiynydd, yn unol ag Atodlen 1(3) o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Mae fy nghontract yn wahanol i ddeiliaid swyddi cyhoeddus eraill gan nad yw’n caniatáu ar gyfer codiadau costau byw oherwydd chwyddiant, dyfarniadau cynyddrannol na bonysau. Rwy’n gymwys i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac wedi gwneud hynny.

Rwy'n pennu cyflogau staff a gyflogir yn uniongyrchol drwy fy strategaeth cyflog a gwobrwyo ac mae codiadau cynyddrannol i gyflogau staff yn cael eu dyfarnu yn unol â thelerau ac amodau'r contract. Wrth benderfynu a ddylid rhoi dyfarniad cyflog i staff, byddaf yn ystyried fforddiadwyedd o fewn fy nghyllideb bresennol a fy nghyllideb hysbys, chwyddiant a'r dyfarniadau cyflog a gynigir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn yn 2025-26, dyfarnwyd cynnydd costau byw ar sail chwyddiant o 3.75% i gyflogau pob un o’r staff (dyfarnwyd 5% yn 2024-25).

Er mwyn gweithio tuag at gydraddoldeb cyflogau ar draws y sector cyhoeddus, rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod cyflogau blynyddol fy nhîm, hyd at ac yn cynnwys Band E, yn cyd-fynd â’r isafsymiau pwyntiau cyflog ar bob un o raddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru.

## Contractau Gwasanaeth

Mae penodiadau staff parhaol yn seiliedig ar deilyngdod ac yn cael eu cynnal drwy gystadleuaeth deg ac agored gydag unigolion yn cael eu penodi ar delerau ac amodau a sefydlwyd gennyf fi. Nid yw’r staff yn aelodau o’r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Ar ôl i mi gael fy mhenodi ym mis Medi 2024, pennwyd cyfnod swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am gyfnod o saith mlynedd, heb opsiwn i ymestyn, yn unol â Chomisiynwyr eraill Cymru.

Oni nodir yn wahanol, mae penodiadau'r staff sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn benagored. Ni cheir oedran ymddeol gorfodol er y bydd rheolau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ar yr oed cynharaf y gellir cymryd pensiwn, yn berthnasol.

Rwyf wedi sefydlu ffyrdd o werthuso perfformiad i sicrhau y caiff cyfraniad gweithwyr unigol ei fonitro ar bob cam o’u cyflogaeth gyda’r sefydliad. Rwyf wedi rhoi rhaglen datblygu sefydliadol ar waith i wella gallu a gwella lefelau perfformiad cyffredinol.

Byddai terfynu cyflogaeth yn gynnar, ac eithrio oherwydd camymddwyn neu ymddiswyddiad, yn golygu y byddai’r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ni wnaeth unrhyw aelod o staff adael y sefydliad dan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil yn ystod 2025-26.

## Taliadau (gan gynnwys cyflog) a Hawliau Pensiwn

(yn amodol ar archwiliad)

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion taliadau a buddiannau pensiwn fy staff uwch a minnau.

## Cyfanswm unigol y taliad

(yn amodol ar archwiliad)

Mae'r 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, taliadau goramser, ac unrhyw lwfans arall i'r graddau bod trethiant y Deyrnas Unedig yn berthnasol iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a gronnwyd ac a wnaed gan y Comisiynydd ac sydd wedi'u cofnodi felly yn y cyfrifon hyn. Ni dderbyniais i nac unrhyw aelod arall o staff fuddion ymarferol nac unrhyw fonws.

| Enw a theitl | Cyflog | | Buddion Pensiwn(5) | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 |
| Rhian Bowen-Davies (1) (Cyfwerth â blwyddyn lawn) Comisiynydd | 90-95 | 45-50 (90-95) | 28 | 18 | 115-120 | 60-65 |
| Heléna Herklots (2) (cyfwerth â blwyddyn lawn) Cyn Gomisiynydd | 0 | 30-35 (90-95) | 0 | 14 | 0 | 45-50 |
| Kelly Davies Prif Swyddog Gweithredu, Dirprwy Gomisiynydd | 75-80 | 75-80 | 29 | 30 | 105-110 | 105-110 |
| Rachel Bowen Cyfarwyddwr Polisi | 75-80 | 70-75 | 28 | 28 | 100-105 | 95-100 |
| Katie Holliday (3) (cyfwerth â blwyddyn lawn) Cyn-bennaeth Cyllid ac Adnoddau | 0 | 30-35 (60-65) | 0 | 15 | 0 | 45-50 |
| Delyth Evans (4) (cyfwerth â blwyddyn lawn) Pennaeth Cyllid ac Adnoddau | 25-30 (45-50) | 20-25 (45-50) | 10 | 10 | 35-40 | 30-35 |

(1) Dechreuodd Rhian Bowen-Davies yn ei swydd ar 30 Medi 2024.

(2) Daeth cyfnod Helena Herklots yn y swydd i ben ar 19 Awst 2024. Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys taliadau a wnaed mewn perthynas ag Ymchwiliad COVID-19. Ar ôl i'w phenodiad ddod i ben, gwnaed taliadau ychwanegol o £7,800 i Helena yn 2025/26 a £2,000 yn 2024/25.

(3) Gadawodd Katie Holliday ei swydd ar 6 Hydref 2024.

(4) Dechreuodd Delyth Evans yn ei swydd ar 1 Hydref 2024 a gadawodd ei swydd ar 30 Medi 2025. Yn lle'r swydd honno, sefydlwyd swydd Pennaeth Cyllid newydd, ac nid yw deiliad y swydd hon yn aelod o'r Uwch Dîm Arwain. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y swyddogaeth adnoddau i'r Prif Swyddog Gweithredu. Mae'r cyflog a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys tâl gwyliau nas defnyddiwyd yn ychwanegol at y cyflog sydd yn y contract.

(5) Mae gwerth y buddion pensiwn sydd wedi'u cronni yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) ychwanegu (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

## Buddion Pensiwn

(yn amodol ar archwiliad)

| | Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/3/26 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn oedran £000 | CETV ar 31/03/26 £000 | CETV ar 31/03/25 £000 | Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth cyfwerth ag arian pensiwn adeg trosglwyddo £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhian Bowen-Davies Comisiynydd | 0-5 | 0-2.5 | 35 | 13 | 16 |
| Kelly Davies Prif Swyddog Gweithredol, Dirprwy Gomisiynydd | 20-25 | 0-2.5 | 361 | 327 | 18 |
| Rachel Bowen, Cyfarwyddwr Polisi | 5-10 | 0-2.5 | 79 | 55 | 17 |
| Delyth Evans Pennaeth Cyllid ac Adnoddau | 0-5 | 0-2.5 | 18 | 8 | 8 |

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n cael ei rannu'n wahanol adrannau - mae clasurol, premiwm a chlasurol a mwy yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, ac mae Nuvos yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Roedd pob gwas sifil newydd a benodwyd a’r mwyafrif o'r rheini sydd eisoes yn y gwasanaeth wedi ymuno â'r cynllun newydd.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae gweithwyr a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau gweithwyr yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05%, yn dibynnu ar eu cyflog). Telir gweddill cost y buddion sy'n cael eu talu gan arian a benderfynir drwy bleidlais gan Senedd y DU bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n cael eu talu'n flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn hytrach na'r trefniadau buddion diffiniedig, gall cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig gyda chyfraniad cyflogwr, y cyfrif pensiwn partneriaeth.

Yn alpha, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, ac mae'r cyfanswm a gronnwyd yn cael ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis rhoi rhan o’u pensiwn heibio (cyfnewid) i gael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004. Mae buddion Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yr holl aelodau sy’n newid i alpha o'r PCSPS wedi cael eu ‘bancio’, gyda buddion y rheini sydd â buddion blaenorol yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Y pensiynau cronedig yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oed pensiwn arferol, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oed pensiwn arferol neu dros yr oed hwnnw. Yr oedran pensiwn arferol yw 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn maent wedi'i ennill yn y PCSPS neu alpha – fel sy'n briodol. Os oes gan aelod fuddion yn y PCSPS ac alpha, mae'r ffigurau'n dangos gwerth cyfun ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhannau cyfansoddol y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd Llywodraeth y DU gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, ceid trefniadau pontio a oedd yn trin aelodau presennol y cynllun yn wahanol ar sail eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn y PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i alpha. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau pontio yng nghynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau ("dyfarniad McCloud").

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny yn 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i bob aelod. Mae dwy ran i Rwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus. Arweiniodd rhan gyntaf y rhwymedi at gau'r PCSPS ar 31 Mawrth 2022, gyda'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o alpha o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Mae ail ran y rhwymedi yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer cyfnod y cam unioni, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023.

Mae'r buddion pensiwn cronedig, Gwerth Cyfateb i Arian Parod adeg Trosglwyddo ac un cyfanswm tâl a gofnodwyd ar gyfer unrhyw unigolyn y mae Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arno, wedi cael eu cyfrifo ar sail eu cynnwys yn y PCSPS ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015

a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng

1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail dros y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol y mae aelodau yr effeithir arnynt wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i'r PCSPS ar gyfer cyfnod y rhwymedi ac y bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl ar ôl ymddeol i benderfynu yn hytrach derbyn buddion a gyfrifir o dan delerau'r cynllun alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

Mae rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w cael ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafog buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol sydd i'w dalu i gymar o'r cynllun. Taliad yw'r CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r

buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyflawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw

fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau'r Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes, a allai fod yn daladwy pan gymerir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau'r gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cynllun Pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn "alpha" - yn gynlluniau buddion diffiniedig heb eu cyllido ar gyfer sawl cyflogwr, ond nid yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gallu canfod beth yw ei gyfran o'r asedau a'r dyledion.

Fe wnaeth actiwari'r cynllun brisio'r cynllun fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Mae'r manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil.

Ar gyfer 2025-26, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £260,062 yn daladwy i'r CSOPS (2024-25: £255,400) ar gyfradd o 28.97% o enillion pensiynadwy.

Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau er mwyn talu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2025-26 sydd i'w talu i'r aelod pan mae'n ymddeol, ac nid y buddion a gaiff eu talu yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Nid oedd unrhyw weithwyr wedi cyfrannu at y cynllun hwn (2024-25: £dim).

# Adroddiad Staff

(yn amodol ar archwiliad)

Ar 31 Mawrth 2026, roedd y staff cyfwerth ag amser llawn yn 17 (31 Mawrth 2025: 16.2) Mae costau staff yn cynnwys:

| | 2025-26 | | | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | Staff Parhaol | Staff Wrth-gefn | Cyfanswm costau staff | Cyfanswm costau staff |
| Cyflogau | 924 | 0 | 924 | 910 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 123 | 0 | 123 | 99 |
| Costau Pensiwn Eraill | 260 | 0 | 260 | 255 |
| **Cyfanswm costau net** | **1,307** | **0** | **1,307** | **1,264** |

## Taliadau Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Fel rhan o'u telerau ac amodau, mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael eu talu am wyth diwrnod y flwyddyn, ar gyfradd ddyddiol o £350, a £400 i'r Cadeirydd.

Mae aelodau hefyd yn cael eu talu am sesiynau hyfforddi a fynychwyd yn ystod y flwyddyn ac am unrhyw waith ychwanegol a wnaed i'r Comisiynydd. Sylwer na wnaed dim gwaith ychwanegol yn ystod 2025-26 gan aelodau'r Pwyllgor.

Wedi'u cynnwys o fewn costau staff mae £13,233 (2024-25: £14,662) sy'n ymwneud â'r taliad, heb fod yn bensiynadwy, i bum aelod o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiynydd.

Yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd, mae Aelodau'n cael ad-daliad drwy'r gyflogres am eu costau teithio a chynhaliaeth.

## Nifer y staff

(yn amodol ar archwiliad)

Dyma nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gennyf yn ystod y flwyddyn

(gan gynnwys uwch aelodau staff):

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 16.91 | 17.47 |
| Penodiadau Cyfnod Penodol | 0.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm** | **16.91** | **17.47** |

Ar ddiwedd y cyfnod ariannol, dyma nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn oedd yn gyflogedig gennyf (gan gynnwys uwch aelodau staff):

| | **31 Mawrth 2026** | **31 Mawrth 2025** |
|---|---|---|
| Staff Parhaol | 17.0 | 16.2 |
| Penodiadau Cyfnod Penodol | 0.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm** | **17.0** | **16.2** |

Yn y tablau uchod, mae'r staff cyflogedig yn cael eu nodi mewn niferoedd sydd gyfwerth ag amser llawn.

## Datgeliad cyflog teg

(yn amodol ar archwiliad)

Mae’n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu’r berthynas rhwng tâl y Cyfarwyddwr sy’n derbyn y cyflog mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu’r sefydliad. Mae’r cyfanswm yn cynnwys cyflog yn unig, ac nid yw’n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

| | **2025-26** | **2024-25** |
|---|---|---|
| Band cyflog y cyfarwyddwr sy’n derbyn y cyflog uchaf (y Comisiynydd) | £90,000 – £95,000 | £90,000 – £95,000 |
| Newid canrannol yn y cyflog cyfartalog o’r flwyddyn flaenorol | 9.42% | -10.89% |
| Taliad chwartel isaf | £42,850 | £41,301 |
| Cymhareb cyflogau 25ain canradd | 2.16:1 | 2.24:1 |
| Taliad cyfan canolrifol | £52,412 | £48,261 |
| Cymhareb cyflogau canolrifol | 1.76:1 | 1.92:1 |
| Taliad chwartel uchaf | £54,753 | £52,774 |
| Cymhareb cyflogau 75ain canradd | 1.69:1 | 1.75:1 |

Roedd y newid canrannol mewn cyflog cyfartalog yn 2024-25 yn adlewyrchu gostyngiad o 10.89 y cant, a oedd yn cael ei sbarduno’n bennaf gan drosiant staff, gyda staff newydd yn ymuno ar ben isaf y bandiau cyflog, a nifer o staff yn gweithio llai o oriau. I’r gwrthwyneb, cynyddodd y cyflog cyfartalog 9.42 y cant yn 2025-26, gan adlewyrchu gweithlu mwy sefydlog, dilyniant drwy bwyntiau cyflog cynyddrannol, a rhoi dyfarniad costau byw o 3.75 y cant.

Roedd tâl band y Cyfarwyddwr sy’n derbyn y cyflog mwyaf (y Comisiynydd) yn £90,000-£95,000 yn 2025-26 (2024-25: £90,000-£95,000). Nid yw lefel cyflog y Comisiynydd yn cael cynnydd costau byw ac felly nid yw wedi newid o £90,000 yn ystod y flwyddyn.

Mae cyflog y Comisiynydd yn 1.76 gwaith (2024-25: 1.92) tâl canolrifol y gweithlu, a gododd i £52,412 (2024-25: £48,261). Mae’r gostyngiad parhaus yn y gymhareb cyflog canolrifol yn adlewyrchu’r twf yn nhâl staff o’i gymharu â chyflog sefydlog y Comisiynydd.

Yn 2025-26, ni chafodd yr un gweithiwr cyflogedig daliadau a oedd yn fwy na rôl y Comisiynydd (2024-25: dim). Roedd taliadau yn amrywio o £30,780 i £90,000 (2024-25: £32,697 i £90,000).

## Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

(ddim yn amodol ar archwiliad)

Mae'r tabl isod yn dangos enillion canolrifol a chymedrig fy staff fesul awr.

| | 31 Mawrth 2026 | | 31 Mawrth 2025 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Menyw** | **Gwryw** | **Menyw** | **Gwryw** |
| **Cyfanswm canolrifol** | £26.02 | £28.46 | £24.50 | £27.43 |
| **Cyfanswm cymedrig** | £27.26 | £28.05 | £27.14 | £26.65 |

Dyma gyfansoddiad staff fy swyddfa yn ôl rhyw a band ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon:

| | 31 Mawrth 2026 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Band A** | **Band B** | **Band C** | **Band D** | **Band E*** | **Band F*** | **Com*** |
| **Menyw** | 0 | 1 | 6 | 5 | 0 | 2 | 1 |
| **Gwryw** | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 |

*Mae fy Uwch Dîm Arwain i gyd yn fenywod

Ar 31 Mawrth 2025, roedd y cyflog canolrifol ar gyfer dynion yn uwch nac ar gyfer menywod. Fodd bynnag, roedd cyflog cymedrig menywod yn uwch gan fod fy Uwch Dîm Arwain i gyd yn fenywod. Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2024-25 yn -1.81%, a bod menywod wedi ennill £101.81 am bob £100 yr oedd dynion wedi'i ennill.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd y cyflog cymedrig a chanolrifol i ddynion yn uwch na menywod, er bod fy holl Uwch Dîm Arwain yn dal i fod yn fenywod. Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer 2025-26 yn 2.92%, a bod menywod yn ennill £97.08 am bob £100 y mae dynion yn ei ennill.

Mae'r newid yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei sbarduno'n bennaf gan newidiadau yng nghyfansoddiad y gweithlu yn hytrach na gan newidiadau mewn cyfraddau cyflog unigol. Cyflogir y tri aelod gwrywaidd o staff mewn rolau lefel ganolig i lefel uwch, sy'n cynyddu'r gyfradd ganolrifol a chymedrig fesul awr ar gyfer dynion. Er bod yr Uwch Dîm Arwain i gyd yn fenywod, mae cynrychiolaeth fwy o fenywod yn dal i'w chael ar draws pob band. Oherwydd y niferoedd bach a adlewyrchir, mae'r canlyniadau'n fwy sensitif i newidiadau bach yng nghymysgedd y gweithlu.

## Ystadegau oedran y gweithlu

(ddim yn amodol ar archwiliad)

Niferoedd staff yn ôl oedran ar 31 Mawrth 2026

| 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65 a hŷn | Heb ddatgelu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 2 | 3 | 11 | 1 | 1 | 0 |

## Trosiant staff

(ddim yn amodol ar archwiliad)

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer staff** | 3 | 1 | 4 | 4 | 5 | 1 |
| **Trosiant** | 16% | 5% | 23% | 19% | 30% | 5% |

Mae maint fy sefydliad, ac felly maint y sampl sydd ar gael, yn sgiwio gwerthoedd y trosiant yn y tabl uchod, gan fod un person yn gadael y sefydliad yn golygu trosiant o 5%.

## Absenoldeb oherwydd Salwch

Mae'r gyfradd gyfartalog ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch fesul aelod o staff wedi cynyddu o'i chymharu â 2024-25 i 6.47 diwrnod (3.39 diwrnod yn 2024-25). Er i gyfradd absenoldeb salwch gyfartalog y sefydliad godi, fe wnaeth ychydig o achosion o absenoldebau tymor hwy nad oeddent yn gysylltiedig â gwaith, sy'n cael ei ddosbarthu fel absenoldeb sy'n para mwy na deg diwrnod gwaith am yr un rheswm, gael effaith fawr ar y ffigur hwn. O dynnu'r absenoldebau hyn o'r gyfradd absenoldeb salwch gyfartalog, 1.71 diwrnod oedd y gyfradd ar gyfer 2025-26, ac mae hon yn dal i fod yn isel.

Rwyf wedi ymrwymo i iechyd fy staff ac mae gennyf bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr, yn ogystal â sesiynau lles penodol a Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

## Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth

Byddaf yn edrych yn ofalus ar fy arferion recriwtio ar ôl pob penodiad er mwyn deall rhwystrau posibl yn well a sicrhau bod arferion recriwtio yn gynhwysol ac yn hygyrch i ystod eang o ymgeiswyr sydd â sbectrwm ehangach o nodweddion gwarchodedig.

Mae gennyf Gynllun Gwarantu Cyfweliad sy'n rhoi'r hawl i unigolion ag anableddau ac o gymunedau Du, Asiaidd, ac Ethnig Lleiafrifol, symud ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol adeg llunio'r rhestr fer.

Hysbysebir swyddi gwag drwy amrywiaeth o rwydweithiau er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl, ac mae modd cael gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o fformatau ar gais. Mae gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig pob ymgeisydd yn cael ei chasglu a'i monitro i sicrhau cyfle cyfartal. Hefyd, rwy'n parhau i gasglu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldeb ar broffil fy ngweithlu.

Rwy'n cynnal adolygiad parhaus o'r mathau o gontractau a phatrymau gweithio yn fy ngweithlu er mwyn deall a delio â rhwystrau posibl, gyda'r nod o gadw ymgeiswyr gyda sbectrwm ehangach o nodweddion gwarchodedig.

Rwyf wedi i ymrwymo i sicrhau bod arferion da yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith er mwyn hyrwyddo amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n hyrwyddo dysgu, datblygu a lles cyffredinol, i greu

amgylchedd gwaith cadarnhaol ar gyfer yr holl staff. Mae diwylliant fy sefydliad yn un sy'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg yr holl staff ac nid oes lle i unrhyw ymddygiad amhriodol (e.e. bwlio ac aflonyddu).

## Polisïau staff yng nghyswllt Gweithwyr Anabl

Ar gais, byddwn yn darparu gwybodaeth recriwtio mewn fformat gwahanol, fel print bras neu Braille. Mae ceisiadau am swyddi hefyd yn cael eu derbyn mewn fformatau gwahanol. Byddwn yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yng nghyswllt y trefniadau ar gyfer y cyfweliad, a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn newis iaith yr unigolyn.

Byddai addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, lle byddai modd, i atal pobl anabl rhag bod dan anfantais. Mae hyn yn berthnasol i gyfweliadau a threfniadau ar gyfer aelodau newydd o staff sy'n ymuno â'r sefydliad, a hefyd ar gyfer aelodau presennol o staff sy'n dychwelyd i weithio ar ôl anaf neu salwch.

## Gweithio i'r Comisiynydd

Mae gennyf nifer o bolisïau ac arferion yn y gweithle wedi'u sefydlu i greu a chynnal amgylchedd a diwylliant yn y gweithle sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi iechyd a lles staff, fel polisi gweithio hybrid, gweithredu system amser hyblyg a chyfleoedd i ddilyn patrymau gweithio hyblyg.

Mae'r sefydliad wedi buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant sy'n cael ei arwain yn allanol ar draws y sefydliad,

sydd wedi cynnwys gweithdai a sesiynau hyfforddi fel pwysigrwydd cwsg; iechyd menywod a dynion; maeth; defnyddio sylweddau ac ymwybyddiaeth; ymwybyddiaeth o iechyd meddwl; niwrogynhwysiant; ymwybyddiaeth o golli golwg; ac ymwybyddiaeth o fyddardod.

Mae'r holl staff yn cael cyfarfodydd misol gyda'u rheolwyr llinell lle trafodir anghenion hyfforddi unigol, yn ogystal ag adolygiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn ffurfiol.

Hyrwyddir cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl staff, ac mae buddion fel Cynlluniau Talebau Gofal Plant, Cynlluniau Beicio i'r Gwaith a chynllun disgownt manwerthu ar gael iddynt hefyd. Ar ben hynny, rwy'n darparu llinell gyfrinachol Cymorth i Weithwyr sy'n rhad ac am ddim i staff er mwyn iddynt allu derbyn cyngor cyfrinachol ar amrywiaeth o faterion. Os oes angen, gall staff gael mynediad hefyd at swyddog cymorth cyntaf iechyd meddwl.

Bob blwyddyn, mae staff yn cynnal asesiad Cyfarpar Sgrin Arddangos o'u gweithfan gartref ac yn y swyddfa. Maent yn ymwybodol y byddwn yn trefnu, ar gais, i asesydd ymweld â'u cartrefi a darparu cefnogaeth un-i-un i sicrhau bod yr offer angenrheidiol ganddynt, a'i fod wedi'i osod yn iawn i'w galluogi i weithio'n effeithiol ac yn ddiogel gartref.

Mae'r sefydliad yn parhau i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig. Mae'r achrediad hwn yn golygu bod pob aelod o staff yn y sefydliad yn ennill o leiaf y Cyflog Byw, sy'n seiliedig ar gostau byw yn y DU.

Ni fu erioed achos lle bu'n rhaid i mi drafod gydag undeb llafur ar ran staff.

## Ymgysylltu â Gweithwyr

Er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymgysylltu'n llawn ac yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, rwy'n cynnal cyfarfodydd tîm bob wythnos i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am faterion fel cynllunio gwaith, materion gweithredol ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Mae fy nhîm a minnau hefyd yn cwrdd wyneb yn wyneb bob chwarter blwyddyn, sy'n rhoi cyfle i ni bwyso a

mesur y gwaith rydym ni, fel sefydliad, wedi'i gyflawni ac iddynt gael diweddariadau manwl ar faterion gweithredol neu strategol. Mae staff wedi dweud bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfathrebu o fewn y sefydliad.

Yn ogystal â'r trefniadau ffurfiol hyn, rhoddir anogaeth i fy nhîm ddefnyddio'r swyddfa i gyfarfod a chydweithio.

Mae staff yn cael eu grymuso i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd a'u hamgylchedd gwaith, ac i gyfrannu atynt. Un enghraifft o hyn yw bod yr holl bolisïau newydd yn cael eu cyflwyno i staff am adborth ar ôl iddynt gael eu creu a bod unrhyw bolisïau y gwneir newidiadau sylweddol iddynt hefyd yn cael eu dosbarthu er gwybodaeth ac i roi sylwadau arnynt. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026, cafodd nifer o bolisïau eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025.

Rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2026, cynhaliwyd arolwg o'r bobl gyda'r holl staff i gasglu adborth ar farn gweithwyr am effeithiolrwydd mewnol; i gael tystiolaeth am ddiwylliant y sefydliad; ac i glywed am unrhyw feysydd allweddol y gellir eu gwella.

Roedd 100% o'r staff yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn teimlo bod y sefydliad wedi ymrwymo i adeiladu a chynnal gweithle sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi iechyd a lles staff; maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr llinell; mae eu rheolwr yn ystyriol o'u bywyd y tu allan i'r gwaith; maent yn cael eu trin yn deg yn y gwaith; maent yn cael eu trin â pharch; teimlant bod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi; a bod y sefydliad yn parchu gwahaniaethau unigol.

## Cymryd ymlaen weithwyr nad ydynt ar y Gyflogres

Nid oedd dim gweithwyr nad oeddent ar y gyflogres wedi'u cymryd ymlaen yn ystod 2025-26; (£dim: 2024-25)

## Gwariant ar Wasanaethau Ymgynghori

Gwariwyd ar wasanaethau ymgynghori yn ystod 2025-26: £7,800: (£2000: 2024-25)

Iawndal am Golli Swydd (yn amodol ar archwiliad) Ni wnaed unrhyw daliadau iawndal yn 2025-26; (£dim: 2024-25)

**Rhian Bowen-Davies**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

10 Medi 2026

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a'r Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y prif bolisïau cyfrifyddu. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar 31 Mawrth 2026 a'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol fel sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, beri amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae’r sail cyfrifyddu busnes hyfyw ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy’n mynnu bod endidau yn mabwysiadu’r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi’r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau maen nhw’n eu darparu yn parhau i’r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o’r adroddiad sy’n cael eu harchwilio ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ynghylch sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng y wybodaeth arall a’r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw’n ymddangos fel arall ei bod yn gamddatganiad o bwys. Os byddaf yn canfod anghysonderau pwysig o’r fath neu gamddatganiadau pwysig tybiedig, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf yn dod i’r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi’i wneud, fod camddatganiad o bwys o’r wybodaeth arall hon, mae’n rhaid i mi wneud adroddiad am y ffaith honno. Nid oes gennyf ddim i wneud adroddiad amdano yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae’r rhan o’r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i’w harchwilio wedi’i pharatoi’n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r rhannau o’r Adroddiad Atebolrwydd sydd i’w harchwilio wedi’i pharatoi’n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad a’r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y byddaf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw neu os nad oes ffurflenni perthnasol i'm harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n cael ei harchwilio yn cytuno â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu;
- nad yw'r wybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau a thrafodion eraill yn cael ei datgelu;
- nad yw rhai o'r taliadau a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth gan Drysorlys EM yn cael eu datgelu neu os nad yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau a'r Adroddiad Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EF;

## Cyfrifoldebau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn parhau i gael eu darparu i'r dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar

benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn, boed hynny'n unigol neu gyda'i gilydd.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n creu gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid sy'n cael ei archwilio a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu'r dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sy'n ymwneud â'r canlynol:
    - canfod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i'r risg o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw amheuaeth o dwyll, twyll gwirioneddol neu honedig; a'r
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, gwelais y ceir posibilrwydd o dwyll wrth gofnodi'n anarferol yn y dyddlyfr;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; a
- Chael dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a welwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu manylion y datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu a ydynt yn cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg; ac
- wrth roi sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd rannu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o dwyll gyda holl aelodau'r tîm archwilio gan aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd yn effeithio ar i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd i archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae gofyn i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol y defnyddiwyd y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a welaf yn ystod fy archwiliad.

## Adrodd

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Catherine Mealing-Jones**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**10 Medi 2026**

**1 Cwr y Ddinas**
**Stryd Tyndall**
**Caerdydd**

# Datganiadau Ariannol

## Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredol** | | | |
| Costau staff | 2 | 1,307 | 1,264 |
| Gwariant Gweithredol Arall | 3 | 387 | 316 |
| Eitemau anariannol | 3 | 30 | 32 |
| Darpariaeth a ddarparwyd / (Rhyddhau'r ddarpariaeth) | | 0 | 0 |
| | | 1,724 | 1,612 |
| **Gweithgareddau cyllid** | | | |
| Llog ariannol ar brydles | 10 | 1 | 2 |
| **Gwariant net ar ôl llog** | | 1,725 | 1,614 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm arall | 4 | 0 | 0 |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **1,725** | **1,614** |

Mae'r holl incwm a'r gwariant yn deillio o weithrediadau sy'n parhau. Nid oes dim enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer 2025-26 na 2024-25. Mae'r Comisiynydd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

# Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | 31 Mawrth 2026 £000 | 31 Mawrth 2026 £000 | 31 Mawrth 2025 £000 | 31 Mawrth 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Asedau Hawl-i-Ddefnyddio | **10** | 31 | | 47 | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | **5** | 11 | | 17 | |
| Asedau anniriaethol | **6** | 9 | | 18 | |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | | 51 | | 82 |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **7** | 22 | | 21 | |
| Arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod | **8** | 82 | | 89 | |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | | 104 | | 110 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | 155 | | 192 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **9** | (44) | | (38) | |
| Prydles Hawl-i-Ddefnyddio | **10** | (18) | | (17) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | (62) | | (55) |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu’r rhwymedigaethau cyfredol** | | | 93 | | 137 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Prydles Hawl-i-Ddefnyddio | **10** | (14) | | (32) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | | (14) | | (32) |
| **Cyfanswm yr asedau ar ôl tynnu cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | 79 | | 105 |
| Ecwiti trethdalwyr | | | 79 | | 105 |
| **Cronfa wrth gefn gyffredinol** | | | 79 | | 105 |

**Rhian Bowen-Davies**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**
10 Medi 2026

# Datganiad o'r Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | Nodyn | 31 Mawrth 2026 £000 | 31 Mawrth 2025 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwariant gweithredol yn cynnwys llog | | (1,724) | (1,614) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | **3** | 30 | 32 |
| (Cynnydd)/gostyngiad yn y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **7** | (1) | (11) |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **9** | 6 | 4 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredol** | | **(1,689)** | **(1,567)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | **5** | 0 | 0 |
| Prynu asedau anniriaethol | **6** | 0 | 0 |
| Enillion o waredaidau | | 1 | 0 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **1** | **0** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Asedau Hawl-i-Ddefnyddio; Taliadau prydles; llog | **10** | 1 | 2 |
| Asedau Hawl-i-Ddefnyddio; Taliadau prydles; cyfalaf | **10** | (19) | (19) |
| Incwm arall | **4** | 0 | 0 |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | | 1,699 | 1,616 |
| **Cyllid net** | | **1,681** | **1,599** |
| | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn symiau cyfwerth ag arian parod am y cyfnod** | | **(7)** | **32** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 8 | **89** | **57** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 8 | **82** | **89** |

## Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| | **Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol** | |
|---|---|---|
| | **1 Ebrill 2025-<br>31 Mawrth 2026** | **1 Ebrill 2024-<br>31 Mawrth 2025** |
| | **£000** | **£000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 105 | 103 |
| Gwariant net | (1,725) | (1,614) |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig | (1,620) | (1,511) |
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru | 1,699 | 1,616 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **79** | **105** |

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o'r polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FreM) 2025-26. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y FreM yn defnyddio Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle mae FreM yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd sydd fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru at ddibenion rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd. Defnyddiwyd hwy'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

## 1.1 Confensiwn Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn costau hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw ased gan nad oedd unrhyw addasiad ailbrisio yn berthnasol ym marn y Comisiynydd.

## 1.2 Incwm, Cyllid a Gwariant

Prif ffynhonnell gyllid y Comisiynydd yw Llywodraeth Cymru, a hynny ar ffurf dyraniad cyllid blynyddol.

Os yw'r cyfrifyddu yn seiliedig ar groniadau, mae'n golygu bod yr incwm a'r gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan mae taliadau ariannol yn cael eu gwneud neu eu derbyn.

Mae'r gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae swydd y Comisiynydd yn berthnasol i Gymru ac yn delio â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru. Dim ond un segment gweithredol sydd gan y Comisiynydd fel y gwelir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau cysylltiedig.

Nid yw'r Comisiynydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir ar yr holl wariant gan gynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol, gan nad oes modd adennill TAW.

## 1.3 Eiddo, Offer a Chyfarpar

Yr isafswm ar gyfer cyfalafu Eiddo, Offer a Chyfarpar yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Darperir dibrisiant ar gyfradd a gyfrifwyd i ddileu'r asedau drwy randaliadau cyfartal dros yr hyn a amcangyfrifir fel eu hoes ddefnyddiol. Caiff dibrisiant ei ddarparu o'r dyddiad y mae oes ddefnyddiol yr ased yn dechrau.

Fel arfer, mae oes asedau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri, hyd at uchafswm o 5 mlynedd |
| Offer swyddfa | 5 mlynedd |
| Offer cysylltiedig â TG | 5 mlynedd |
| Ased Hawl-i-Ddefnyddio | Tymor y brydles neu hyd at y cymal torri, hyd at uchafswm o 5 mlynedd |

Mae Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael eu cynnwys ar sail eu cost gan fod ailbrisio neu fynegeio wedi cael ei ystyried ond ni ystyrir ei fod yn berthnasol ac felly nid yw wedi cael ei ddefnyddio

Y Comisiynydd sy'n dal teitl pob eiddo. Mae'r holl eiddo a ddefnyddir gan y Comisiynydd ar brydles.

## 1.4 Asedau Anniriaethol

Yr isafswm ar gyfer cyfalafu ased anniriaethol yw £5,000 gan gynnwys TAW na ellir ei adennill.

Cafodd trwyddedau meddalwedd, meddalwedd technoleg gwybodaeth a'r wefan eu cyfalafu fel asedau anniriaethol a'u hamorteiddio drwy'r dull llinell syth dros gyfnod disgwyliedig eu hoes ddefnyddiol (pum mlynedd fel arfer).

## 1.5 Cyfnewid Arian Tramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiad y trafodion unigol. Caiff imprestau arian tramor eu trosi i arian sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n gyfredol adeg cyllido.

## 1.6 Pensiynau

Mae'r Comisiynydd a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Gellir ei ddisgrifio fel cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr heb ei gyllido. Cofnodir cyfraniadau i'r cynllun ar y cyfrif gwariant net pan fyddant i'w talu yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil

http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/

## 1.7 Rhagdaliadau

Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu trothwy de minimis o £1,200 (£100 o dâl cyfatebol misol) er mwyn cydnabod rhagdaliadau. Bydd y tâl proffiliedig yn cael ei ryddhau yn y mis y bydd y treuliau'n codi.

## 1.8 Tâl prydles isel ei gwerth

Roedd gan y Comisiynydd un brydles tymor byr ar gyfer lle storio. Daeth y brydles hon i ben ym mis Mehefin 2024. Mae taliadau'r brydles felly'n cael eu cydnabod fel treuliau ac yn cael eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr drwy'r dull llinell syth.

## 1.9 Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod

Fe wnaeth y Comisiynydd godi arian yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, gan ei adneuo yng nghyfrif Gwasanaeth Bancio’r Llywodraeth ar ôl iddo ddod i law. Caiff arian ei dynnu i lawr i gyfrif banc masnachol er mwyn talu rhwymedigaethau fel y maent yn dod yn ddyledus. Mae arian mân yn cael ei gadw yn swyddfa'r Comisiynydd hefyd.

## 1.10 Buddion Gweithwyr Cyflogedig

Cydnabyddir cyflogau a chyfraniadau yswiriant gwladol gweithwyr cyflogedig presennol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau'r gweithwyr gael eu cyflawni. Mae'r Comisiynydd yn bwrw cyfrif o wyliau blynyddol â thâl fel rhwymedigaeth lle disgwylir i'r iawndal am absenoldeb gael ei setlo o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r gweithwyr yn cyflawni eu gwasanaeth.

## 1.11 Asedau Hawl-i-Ddefnyddio

Mae IFRS 16 yn mynnu y dylid asesu contractau i gadarnhau a ydynt yn cyfleu’r hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl. Os ydynt, rhoddir cyfrif amdanynt yn unol ag IFRS16 gydag ased hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaeth prydlesi yn cael eu cydnabod ar y dyddiad cychwyn. Mae’r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei fesur ar sail cost i ddechrau, sy’n cynnwys swm cychwynnol rhwymedigaeth y brydles wedi’i addasu ar gyfer costau uniongyrchol cychwynnol, rhagdaliadau a chymhellion.

Mae’r ased hawl-i-ddefnyddio, sydd yn y set hon o ddatganiadau ariannol yn ymwneud â phrydles y Comisiynydd ar gyfer y swyddfa ar y llawr gwaelod, yn cael ei ddibrisio gan ddefnyddio’r dull llinell syth o ddyddiad cychwyn y brydles hyd at ddiwedd cyfnod y brydles.

Mae rhwymedigaeth y brydles yn cael ei mesur i ddechrau ar sail gwerth presennol taliadau’r brydles nad ydynt yn cael eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi eu disgowntio gan ddefnyddio’r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles neu, os nad yw’n rhwydd pennu’r gyfradd honno, gan ddefnyddio’r gyfradd fenthyca gynyddrannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Gan nad oes cyfradd llog ymhlyg ym mhrydles y Comisiynydd ar gyfer y swyddfa, rydym yn parhau i ddefnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys Ei Fawrhydi o 3.51%.

## 1.12 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond nad ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto.

Mae IAS 8 yn gofyn am ddatgelu mewn perthynas â safonau cyfrifyddu newydd, diwygiadau a dehongliadau sy’n berthnasol, neu a fydd yn berthnasol, ar ôl y cyfnod cyfrifyddu.

Bydd IFRS 18 yn disodli IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol ac mae’n weithredol ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy’n dechrau ar 1 Ionawr 2027 neu ar ôl hynny yn y sector preifat. Mae effaith IFRS 18 ar y Sector Cyhoeddus yn dal i gael ei hasesu, ac nid oes penderfyniad wedi’i wneud eto ynghylch dyddiad gweithredu.

Ym marn y Comisiynydd, nid oes dim safonau eraill sydd wedi eu cyhoeddi ac nas rhoddwyd ar waith eto, yn effeithio ar y sefydliad.

## 2. Mae costau staff yn cynnwys:

| | 2025-26 | | | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | Staff Parhaol | Staff Wrth-gefn | Cyfanswm costau staff | Cyfanswm costau staff |
| Cyflogau | 924 | 0 | 924 | 910 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 123 | 0 | 123 | 99 |
| Costau Pensiwn Eraill | 260 | 0 | 260 | 255 |
| **Cyfanswm y costau** | **1,307** | **0** | **1,307** | **1,264** |

Mae dadansoddiad o gostau staff wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad ar Staff a Thaliadau ar dudalen 59.

## 3. Gwariant Gweithredol Arall

Mae gwariant gweithredol arall yn cynnwys:

| | Nodyn | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Technoleg gwybodaeth | | 90 | 89 |
| Rhaglenni Penodol | | 106 | 65 |
| Ffioedd proffesiynol | | 40 | 33 |
| Costau gweinyddol eraill | | 60 | 46 |
| Hyfforddiant a datblygu | | 19 | 21 |
| Costau adeiladau eraill | | 24 | 23 |
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol | | 4 | 4 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 11 | 8 |
| Ffioedd archwilio – Archwiliad allanol | | 21 | 19 |
| Ffioedd archwilio – Archwiliad mewnol | | 12 | 8 |
| | | **387** | **316** |
| Eitemau anariannol: | | | |
| Dibrisiant ased hawl-i-ddefnyddio | 10 | 16 | 16 |
| Elw ar waredu Offer Diogelu Personol (PPE) | 5 | (1) | 0 |
| Dibrisiant PPE | 5 | 6 | 7 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 6 | 9 | 9 |
| | | **30** | **32** |
| **Cyfanswm** | | **417** | **348** |

Mae’r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o’r gwariant ar gyflawni fy nghynllun strategol, a phrosiectau untro uchel eu gwerth eraill.

| **Maes blaenoriaeth strategol** | **£000** |
|---|---|
| Arolwg Barn | 27 |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 37 |
| Pobl Hŷn Heb Blant | 2 |
| Rhoi tai i bobl hŷn | 5 |
| Oedraniaeth Ddigidol | 13 |
| Cynhyrchu adnoddau hygyrch | 22 |
| **Rhaglenni Penodol** | **106** |

Nid yw'r gwariant a ddatgelwyd uchod yn cynnwys dosrannu unrhyw gostau cyflog staff y Comisiynydd, ac mae'n adlewyrchu costau uniongyrchol ychwanegol yn unig.

## 4. Incwm arall

| | **2025-26**<br>**£000** | **2024-25**<br>**£000** |
|---|---|---|
| Incwm arall | 0 | 0 |
| Cyfanswm y costau | 0 | 0 |

## 5. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Offer Swyddfa | Gwella eiddo'r Brydles | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cost neu brisiad | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | **6** | **30** | **36** |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 |
| Gwarediadau | (4) | 0 | (4) |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **2** | **30** | **32** |
| | | | |
| Dibrisiant ac Amhariad | | | |
| Ar 01 Ebrill 2025 | **6** | **13** | **19** |
| Taliadau a godwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 6 | 6 |
| Gwarediadau | (4) | 0 | (4) |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **2** | **19** | **21** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2026** | **0** | **11** | **11** |
| Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2025 | 0 | 17 | 17 |

Ni fu amhariad ar ddim asedau ac fe'u dangosir ar gost yr ystyrir ei fod yn 'werth teg'.

## 6. Asedau Anniriaethol

| | Trwyddedau Meddalwedd | Technoleg Gwybodaeth | Gwefan | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost neu brisiad | | | | |
| Ar 01 Ebrill 2025 | **46** | **64** | **36** | **146** |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwarediadau | (46) | (55) | 0 | (101) |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **0** | **9** | **36** | **45** |
| | | | | |
| Amorteiddiad | | | | |
| Ar 01 Ebrill 2025 | **46** | **61** | **21** | **128** |
| Taliadau a godwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 2 | 7 | 9 |
| Gwarediadau | (46) | (55) | 0 | (101) |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **0** | **8** | **28** | **36** |
| | | | | |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2026** | **0** | **1** | **8** | **9** |
| Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2025 | 0 | 3 | 15 | 18 |

Ni fu amhariad ar ddim asedau ac fe'u dangosir ar gost yr ystyrir ei fod yn 'werth teg'.

Gwaredwyd trwyddedau meddalwedd yn ymwneud â'r hen system WorkPro yn ystod y flwyddyn. Mae'r system hon bellach yn system yn y cwmwl, ac nid oes gan y trwyddedau cysylltiedig ddim potensial gwasanaethu bellach, dim gwerth i'w hailwerthu, na budd economaidd.

## 7. Symiau derbyniadwy drwy fasnach

| | 31 Mawrth 2026 | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnach | 0 | 0 |
| Rhagdaliadau | 22 | 21 |
| | **22** | **21** |

Rhagdaliad yw swm sy'n cael ei dalu ymlaen llaw, fel arfer am eitemau fel ardrethi neu rent. Caiff ei gydnabod fel ased i ddechrau ac fe gaiff ei osod fel treuliau yn y cyfnod pan dderbynnir y budd.

Nid oedd symiau derbyniadwy yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 8. Arian parod a’r hyn sy’n gyfwerth ag arian parod

| | 2025-26<br>£000 | 2024-25<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **89** | **57** |
| Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | **(7)** | **32** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **82** | **89** |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **5** | **5** |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **77** | **84** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **82** | **89** |

## 9. Symiau Taladwy drwy Fasnach a Rhwymedigaethau Eraill

| | 31 Mawrth 2026<br>£000 | 31 Mawrth 2025<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau a ddaw’n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach | 4 | 3 |
| Croniadau | 40 | 35 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **44** | **38** |

## 10. Asedau Hawl-i-Ddefnyddio

Mae gan y Comisiynydd un brydles pum mlynedd ar gyfer swyddfa fach yn Adeiladau Cambrian, Caerdydd. Dechreuodd y brydles ar 4 Awst 2023.

| | Adeiladau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| Prisiad ar 31 Mawrth 2025 | 79 | 79 |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **79** | **79** |
| | | |
| Dibrisiant ar 31 Mawrth 2025 | 32 | 32 |
| Ffi am y flwyddyn | 16 | 16 |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **48** | **48** |
| | | |
| **Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth 2026** | **31** | **31** |
| Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth 2025 | 47 | 47 |

**Dadansoddiad o Aeddfedrwydd**

| | 2026 £000 | 2025 £000 |
|---|---|---|
| Llifoedd arian contractiol heb eu disgowntio sy'n ymwneud â rhwymedigaethau prydlesau | | |
| O fewn blwyddyn | 19 | 19 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 14 | 32 |
| Ar ôl pum mlynedd | 0 | 0 |
| **Swm** | **33** | **51** |
| | | |
| **Llai taliadau i'r dyfodol a ddyrannwyd i gyfnodau i'r dyfodol** | **(1)** | **(2)** |
| **Isafswm taliadau prydlesau** | **32** | **49** |
| | | |
| Wedi'i gynnwys yn y | | |
| Symiau taladwy cyfredol drwy fasnach | 18 | 17 |
| Symiau taladwy anghyfredol drwy fasnach | 14 | 32 |
| | **32** | **49** |

| **Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | **2026** | **2025** |
|---|---|---|
| Dibrisiant | 16 | 16 |
| Llog ar rwymedigaethau prydlesau | 1 | 2 |

| | 2026 | 2025 |
|---|---|---|
| **Swm a gydnabyddir yn y Datganiad Llifoedd Arian (net o TAW na ellir ei hadennill)** | | |
| Costau llog | 1 | 2 |
| Ad-dalu prifswm ar brydlesau | (19) | (19) |
| **Cyfanswm llif arian** | **(18)** | **(17)** |

## 11. Offerynnau Ariannol

Mae gofynion ariannol y Comisiynydd yn cael eu diwallu drwy gyllid a ddarperir gan

Lywodraeth Cymru. Oherwydd hyn, nid yw'r Comisiynydd yn wynebu llawer o risgiau o ran hylifedd.

Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol, yn unol â gofynion disgwyliedig y Comisiynydd o ran prynu a defnyddio. O ganlyniad, nid yw'r Comisiynydd yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd, cyfraddau llog nac arian tramor.

Does dim gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y gwerth ar y llyfrau a gwerth teg rhwymedigaethau ac asedau ariannol y sefydliad ar 31 Mawrth 2026 (31 Mawrth 2025: £dim).

## 12. Prydlesi cyllid a chontractau PFI

Nid oes rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid na chontractau PFI (2024-25: dim). Nid yw'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo sy'n brydlesi neu'n gontractau PFI (2024-25: dim).

## 13. Rhwymedigaethau amodol a ddatgelir dan IAS 37

Nid oes gan y Comisiynydd ddim rhwymedigaethau amodol nad ydynt yn cael eu datgelu yn rhywle arall yn y cyfrifon hyn (2024-25: dim).

## 14. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn 2025-26 derbyniodd y Comisiynydd gyllid o £1,699,000 gan Lywodraeth Cymru (2024-25: £1,616,000).

Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2025-26, ni fu'r Comisiynydd, nac unrhyw aelod arall o'r Uwch Dîm Arwain, nac unrhyw aelod o'u teuluoedd, yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r swyddfa yn ystod y flwyddyn, ac eithrio'r taliadau cyflog a'r hawliadau arferol am dreuliau.

## 15. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd digwyddiadau o bwys rhwng diwedd y flwyddyn ac adeg cymeradwyo'r cyfrifon hyn.

**Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 10 Medi 2026 gan Rhian Bowen-Davies.**

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales